

ECO'R WYDDFA

RHIF 293

Hydref 2002

PRIS 40c

Tri Tîm ar y Brig

– stori ar y
dudalen gefn

Cynghreiriau Lleol

Ty'n Lôn Volvo Welsh Alliance

	Ch	E	C	Co	+	-	P
Loco Llanberis	8	6	1	1	17	10	19
Dinbych	7	5	1	1	12	6	16

Cynghrair Seren Arian

Llanrug	8	7	1	0	24	5	22
Pwllheli	8	6	1	1	36	12	19

Cynghrair Heritage Homes

Bethel	7	7	0	0	39	11	21
Bermo	6	5	1	0	54	4	16

O'r Waun i Sain Ffagan

Mae beudy cerrig bach o Waunfawr am gael cartref newydd... yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, De Cymru.

Bydd y beudy yn cael ei ailgodi wrth ymyl Llainfadyn, bwthyn a adeiladwyd yn Rhostryfan yn wreiddiol ym 1762 ond sydd bellach yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd yr Amgueddfa. Fel yr eglurodd Gerallt Nash, Curadur Adeiladau Hanesyddol.

'Yn ei safle gwreiddiol yn Rhostryfan, roedd gan Llainfadyn, fel llawer o fythynnod tebyg yn Eryri, feudy ac un neu ddau o adeiladau allan eraill megis cwt mochyn a thŷ golchi. Pan gynigiwyd y bwthyn i'r Amgueddfa ym 1956 ni chynhwyswyd yr adeiladau eraill ac felly mae'r darlun fel y'i cyflwynir yn yr Amgueddfa yn anghyflawn.

'Bydd ychwanegu'r adeilad hwn, sy'n llai na 5km o safle gwreiddiol Llainfadyn, yn helpu'r Amgueddfa i ddehongli'n fwy llawn un o'i thrysorau mwyaf poblogaidd.'

Mae'r beudy, y credir ei fod yn dyddio o'r 18fed ganrif neu ddechrau'r 19eg ganrif, wedi'i adeiladu yn yr un traddodiad â bwthyn Llainfadyn, gyda muriau o glogfeini mawr a tho o lecchi bach wedi'u dal gan



Y Beudy o'r 18fed ganrif.



Tu mewn y Beudy.

begiau. Un nodwedd ddiddorol yw'r ffaith bod y llechi wedi'u dal yn eu lle drwy eu pegio i mewn i dyweirch a osodwyd ar y trawstiau pren garw, yn hytrach na thrwy ddefnyddio eisennau yn ôl yr arfer.

Mae'r adeilad ar hyn o bryd ar dir Geraint Rees Roberts a'i deulu. Mae o'r farn bod ailgodi'r beudy yn Ne Cymru yn syniad gwych:

'Doedd y beudy ddim o unrhyw werth i ni oherwydd i'w gyflwr ddirywo yn ddiweddar ond mae'n braf gwybod y bydd o'n mynd i lawr i Amgueddfa Werin Cymru ac y bydd pobl eraill yn gallu gweld pa fath o adeiladau oedd gan bobl ar ffermydd bach gwledig yn yr hen ddyddiau.'

Caiff yr adeilad ei gofnodi, ei dynnu i lawr a'i symud gan Uned Adeiladau Hanesyddol yr Amgueddfa a'i ailgodi ar safle Sain Ffagan yn y dyfodol agos.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Julie Williams ar
Ffon: (01286) 870630 E-bost:
julie.williams@nmgw.ac.uk

neu Sioned Hughes ar
Ffôn: (02902) 573442 E-bost:
sioned.hughes@nmgw.ac.uk

Codi Canu, Codi Arian

Côr Meibion Dyffryn Peris

Mac'r misocdd diwethaf wedi bod yn rhai prysur iawn yn hanes y côr. Yn ystod mai Mai bu'r côr yn cynnal cyngerdd yn Rhodgadfan. Roedd elw'r noson yn mynd at Ymchwil Cancer. Hefyd cafwyd Noson Lawen arbennig o dda yng Nglyn Cciriog ac yna Cymanfa Ganu yn Eglwys Nant Peris.

Ym mis Mehefin bu'r côr mewn Noson Lawen yn Llanuwchllyn ger y Bala. Mis Gorffennaf cafwyd cyngerdd hwyliog iawn yng Ngwesty Dolbadarn gyda Trebor Gwanas a Dafydd Edwards yn ein difyrru.

Cyflwynwyd siec am £200 gan Aneurin Jones, Cadeirydd y côr, i Mrs Eluned Mai Jones ar ran trigolion Plas Pengwaith (gweler llun). Ar 21 Gorffennaf bu'r côr yn diddanu'r ymwelwyr yn Betws y Coed.

Ar 13 Awst bu'r côr yn rhannu llwyfan gyda Chôr Meibion Toronto yn yr Eglwys yn Llanberis. Cyflwynwyd siec am £425 i Gadeirydd y côr gan Aneurin Jones. Mac'r misocdd nesaf yn mynd i fod yn rhai digon prysur eto gyda chyngherddau yn Gwalchmai, Rhosllannerchrugog, Corwen a Phwllheli.



Llainfadyn.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 293
HYDREF**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7b STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs: (01286) 674631
eco@palasprint.com
Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coad (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (977439)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)
GYM-Y-GLWY: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnion (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, HYDREF 21
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, HYDREF 31

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Tachwedd Rhagfyr	Hydref 21 Tachwedd 18	Hydref 31 Tachwedd 28	Llanberis Caeathro	Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Balchder Nain a Taid yn Awstralia

Ty Ni
157 Kallangur,
Queensland. 4503.
Awstralia.

Annwyl Olygydd,

Mae llawer o ddigwyddiadau
wedi bod yn ein bywydau ni fel
tenlu bach Cymraeg yn
Awstralia dros gyfnod o 35
mlynedd.

Dod yma ym mis Chwefror
1968 hefo tri o blant bach ifanc i
anferth o wlad ddieithr a di-
Gymraeg! Doedd y plant ddim
yn gallu siarad fawr o Saesneg
a'r bachgen hynaf, Keith, yn
torri ei galon eisiau mynd yn ôl
i Gymru i fyw hefo'i nain a'i
daid. Ymhenn llai na chwe mis,
Alwyn, y brawd arall yn datgan
ei ddymuniad i'w ddilyn. Yna
cael trafferth gyda Glenda, y
ferch, pan oedd ond chwech oed
ac yn ceisio dysgu Saesneg. Sôn
am benbleth yn ceisio
penderfynu beth oedd orau i'w
wneud.

Ond dylalbarhad pia' hi a
phenderfynodd Eurwyn, y gŵr,
a minnau mai aros yma fyddai
orau er mwyn y plant. Daethom
yn aelodau o'r Eglwys Gymraeg
yn Sydney ac hefyd o'r
Gymdeithas Gymraeg. Cefais y
faint, yn ddiweddarach, fel
ysgrifenyddes y Gymdeithas i
ddod a Hogia'r Wyddfa ac
Annette Bryn Parri allan yma
ychydig flynyddoedd yn ôl.

Mae'r plant i gyd wedi gadael
yr aelwyd erbyn hyn ond rwy'n
falch o gael dweud fod y tri wedi
cadw eu Cymreigrwydd a'u
hiaith.

Ein balchder mwyaf ar y
funud yw ein ŵyr - Morgan
Roberts, mab Keith. Mae Keith
a'i wraig Elyse, ynghyd â
Morgan a'i chwaer Arianwen yn
byw yn y Mynyddoedd Gleision
ger Sydney, NSW. Mae'r plant
yn mynychu'r ysgol Uwchradd
yn Winmallec.

Mae Morgan yn brysur iawn
yn gwneud enw iddo fo ei hun
yng nghyffiniau Sydney ers dwy
flynedd bellach. Dechreuodd ei
yrfa canu mewn cyngerdd
Nadolig yn Eglwys Finbar
Sant, Glenbrook. Aeth ei fam ag
o at athrawes canu cyn iddo
fynd hefo'i ysgol i ganu yn y
Tŷ Opera yn Sydney. Cadarnhaodd
yr athrawes fod dyfodol i
Morgan fel canwr ac y dylai ei
rieni roi y cynnig iddo. Gan fod
ei dad yn Gymro o'i goryn i'w

sawdl - doedd dim rhaid dweud
ddwywaith!

Erbyn hyn mae Morgan wedi
cael y gefnogaeth, ac mae wedi
canu mewn nifer fawr o
gyngherddau o amgylch y
Mynyddoedd Gleision ac wedi
cystadlu yn Eisteddfod Penrith.
Yno fe gafodd y wobr gyntaf ac
ail. Derbyniodd glod uchel am
ganu 'Ar Hyd Y Nos' yn yr iaith
Gymraeg.

Erbyn hyn mae Morgan wedi
cael y profiad o ganu yn Neuadd



Dafydd Emlyn Morgan Roberts.

y Dref, Sydney lle mae llawer o
gorau o Gymru wedi
perfformio. Mae wedi canu gyda
Chôr Cymraeg Sydney a Chôr
Meibion Cymraeg y ddinas, côr
y rhanodd Hogia'r Wyddfa
lwyfan â hwy yn Sutherland.

Mae'r bychan wedi canu hefo
côr Woolongong, man arall lle y
canodd Hogia'r Wyddfa, ac mae
wedi derbyn adolygiadau
canmoliaethus mewn sawl
cylchgrawn gan ddisgrifio ei lais
fel 'The Voice of an Angel'.

Deuddeg oed ydyw Morgan,
ac mae wrthi yn brysur ar hyn o
bryd yn torri ei grynoddiss

gyntaf. Ei hoff ganeuon yw
'Bright Eyes', can Elton John;
'Can You Feel The Love
Tonight?'; 'Where Is Love?'
allan o 'Oliver', ynghyd â
chaneuon traddodiadol
Cymraeg.

Nid yw taid, sef Eurwyn
Roberts o Bryn Tirion, Llanrug
gynt wedi bod yn dda ei ieuchyd
yn ddiweddar gyda'r cof yn
pallu ar brydiau. Ond, pan mae
Morgan yn dysgu cân newydd
mae yn ffonio Taid ac yn canu
iddo dros y ffôn. Hoff ganenon
Taid yw 'Calon Lân', 'Ar Hyd y
Nos' a 'Danny Boy'. Mae'r
bychan yn donig i'w daid.

Ar y funud mae bywyd
Morgan yn un prysur iawn,
rhwyng chwarae pêl-droed i'r
clwb Deol, paratoi i gystadlu yn
Ninas Penrith eto a chymryd
rhan Kurt?? yn y gomedï gerdd
'The Sound of Music' gyda
Chwmni Musical Comedy
Penrith. Fel tae hyn ddim digon
mae Morgan wedi cael rhan
bwysig gan Opera Australia yn
ei gynhyrchiad o 'Carmen' a
fydd yn cael ei berfformio yn y
Tŷ Opera yn Sydney. Ar ben
hyn i gyd bydd yn rhaid iddo
gadw i fyny hefo'i waith ysgol!

Mae cael geiriau a
cherddoriaeth Gymraeg allan
yn y fan hyn yn anodd iawn.
Ffoniais Arwel Hogia'r Wyddfa
i ofyn am gymorth. Cyn diwedd
y sgwrs chwareuais dâp o lais
Morgan dros y ffôn, yr holl
ffordd o Awstralia i Gymru.
'Mac ganddo lais fel cloch,'
meddai Arwel, 'anfon ei hanes i
Eco'r Wyddfa - mae'n fab i
Gymro Cymraeg o Lanrug!' A
dyma fi'n gwneud.

Ydi mae Taid a Nain mor
falch. Biti na faswn i yn gallu
anfon ei lais i chi i gyd!

Yr eiddoch yn gywir,
Grace Roberts (Nain)

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
GAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Rownd a Rownd ym Mro'r ECO



Sêr y dyfodol... A'r Presennol.

Adnodd Gwerthfawr



Tim Rownd a Rownd.

'Gwireddu breuddwyd' oedd diffiniad Wyn Williams, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Iau Bethel. Yr achlysur oedd agoriad swyddogol maes pêl-droed newydd y pentref, sef Cac Codd Belyn. Daeth torf dda draw i ddathlu, ac hefyd i wrthfawrogi cyfraniad sawl un i greu'r adnodd gwerthfawr hwn.

Sefydlwyd y clwb pêl-droed iau saith mlynedd yn ôl ac, erbyn hyn, mae iddynt gartref sefydlog i dimau -13, -11, -9 a -7. Yn sicr, mewn pentref â phoblogaeth ieuanc, bu'r clwb yn fodd i greu cysylltiadau i'r newydd ddyfodiad.

Dros y cyfnod bu sawl cwmni lleol yn hael eu nawdd, a bu sawl dull o godi arian, gyda'r bwriad o gael cartref sefydlog. Gwerthfawrogydd cyfraniad John, Tyddyn Perthi, yn rhoddi tir at ddefnydd y clwb, ond bod y gobaith o ddatblygu yn anodd. Erbyn hyn, a hwythau yn berchen y tir, mae cyfle i ymestyn gorwelion.

Yn ei annerchiad, cyfeiriodd Wyn at gyfraniad sawl un am eu gwahanol gymorth at yr achos. Yn y maes swyddogol diolchodd i Clive James o Gyngor Gwynedd am ei gyswllt a'i arweiniad gwerthfawr. Cyfrannwyd £1,400 at y pryniant drwy Gronfa Cist Gwynedd.

Bu'r rhieni yn brwsur gyda

pharatoi'r tir, yn enwedig Andrew Williams, am oriau diflino. Y mae golwg graenus iawn ar y cae ac y mae'r man parcio hefyd yn adnodd pwysig iawn. Braint, meddai Wyn wrth y llu ieuencid oedd yno, oedd cyflwyno yr adnoddau iddynt, nid yn unig er lles clwb ond hefyd y pentref a'r ardal. Eu dyletswydd hwy fydd ei barchu.

Perfformiwyd yr agoriad swyddogol gan Ieuan Lewis o Gyngor Gwynedd, sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor Chwaraeon. Yr oedd yntau yn canmol y gwaith clodwiw, ac yn nodi ei fod yn ymwybodol erbyn hyn nad oedd y Cyngor Chwaraeon wedi cyfrannu yn ariannol. Wedi'r gwahoddiad roedd yn disgwyl cais yn disgyn ar ei ddesg.

Wedi'r agoriad chwaraewyd nifer o gemau ymysg aelodau'r clwb, a dacth tîm o sêr Rownd a Rownd yno i chwarae yn erbyn tîm o rieni. Y cryfryngau aeth a hi o 4-2!

Y mae'r sylfaen wedi ei gosodi, ac yn sicr bydd datblygiadau yn yr arfaeth, yn enwedig ystafelloedd newid. Mae'n siwr y bydd gobaith o brynu mwy o dir i gael cae maint llawn ar gyfer y tîm dynion llwyddiannus. Amser a ddengys. Mae'n amser cyffrous ym myd pêl-droed Bethel ar hyn o bryd.

Rygarug

Ym mis Mai daeth Mr Cliff Jones o Ffilmiau'r Nant i ymweld â Rygarug yn chwilio am actorion ifanc i gymryd rhan yng nghyfres ddrama boblogaidd S4C, Rownd a Rownd. Yn sgil ei ymweliad cafodd dau o'r aelodau, sef Danny Griffiths a Heledd Roberts, eu dewis i chwarae brawd a chwaer - Gemma a Huw - yn y gyfres. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt a phob lwc gyda'r gwaith ffilmio ym Mhorthaethwy.

Daeth blwyddyn o weithgareddau Rygarug i ben gyda chyngerdd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun ar 21 Mehefin. Cafodd yr aelodau gyfle i arddangos y sgiliau y buont yn eu meithrin dros y misoedd a aeth heibio. Roedd y côr yn bresennol i ganu rhai o'u caneuon gan gynnwys 'Ystyria dy hun' allan o sioe gerdd 'Oliver'; bur tri grŵp dawns yn perfformio i gyfeiliant Britney Spears ac SClub7; a chafwyd ychydig o flas a chefnidir y grŵp Sgriptio. Ynghyd ag aelodau Rygarug daeth Delyth Roberts o Gaernarfon i ddiddanu ar y clarinet ac roedd y gynulleidfa wrth eu bodd gyda pherfformiad Kevin, Gwawr a

Dafydd (Ysgol Carmel) o ymgom ddoniol a ddaeth a gwobr gyntaf iddynt yn Eisteddfod yr Urdd.

Erbyn hyn mae tymor newydd o wersi canu, drama, dawnsio, sgriptio ac amlgyfrwng wedi cychwyn yn y Sefydliad Coffa Llanrug ar nosweithiau Mawrth, Mercher a Iau. Nod yr aelodau a'u tiwtoriaid y tro yma fydd sioe liwgar a chyffrous fydd yn gymysgfa o ganeuon, dawnsfeydd a sgetsus o sioeau cerdd enwog. Bydd y sioe yn cael ei pherfformio yn Theatr Seilo ym mis Chwefror.

Mae croeso i aelodau newydd bob amser a byddai'n braf gweld mwy o bobl ifanc o Ddeiniolen, Llanberis, Cwm-y-glo, Bethel a Waunfawr. Rhaid bod rhwng 7 (blwyddyn 2) a 16 oed. £1 yw cost aelodaeth blwyddyn a £1 yn unig yw cost pob gwers. O dro i dro bydd gweithgareddau'n cael eu trefnu y tu allan i Lanrug - y cyntaf o'r rhain fydd gweithdy dawns a cherdd yn Waunfawr yn ystod yr hanner tymor ym mis Hydref.

Dewch draw i'r Sefydliad Coffa i weld y gweithgareddau sydd ar gael neu ffoniwch Audra ar 675766 am fwy o fanylion.



Agoriad swyddogol maes pêl-droed newydd Bethel.



Tîm Bethel.

O SIAMBAR SELWYN

Ydach chi'n cofio'r gân boblogaidd honno ers talwm: 'I ble'r aeth yr haul?' Wel, cwestiwn a glywais i droeon eleni oedd 'I ble'r aeth yr haf?'

Ia, ha' digon tila gawson ni. Hen ha' pryfoclyd, ac i'r rhai ohonom a fu ar y bererindod flynyddol i'r Brifwyl, do fe gawsom yn Nhyddewi hefyd, ein siâr arferol o 'haul a glaw a gwynt'. O leia, gallwn ddiolch nad oedd mwd Abergwaun 1986 ar dir ein nawdd sant.

Mi glywais i rai, a fu'n chwilio am yr haul ar draethau Môr y Canoldir, yn cwyno iddynt gael gwyliau gwlyb a chymylog yno. A phwy fasa'n rhagweld y byddai rhannau helaeth o Ewrop, dinasoedd fel Prague a Dresden, yn dioddef llifogydd mor drychinebus yn ystod misoedd yr haf.

Ia, cyfnewidiol yw'r tywydd a hynod o bryfoclyd, fel person oriog - fedwrch chi ddim ymddiried ynddo.

* * *

Rydw i'n digwydd sgwennu y llith hwn yn gynnar ar fore 4 Medi. Mae'r plant yn mynd yn ôl i'r ysgol heddiw. Mae 'na sŵn prysurdeb o gwmpas, sŵn drysau ceir yn clepian, cyrn yn cyfarch cyrn, a sŵn chwerthin direidus y plant o iard yr ysgol

gyfagos. Ydi, mae'r adar yn canu ac mae'r haul yn gwenu. Mae'n fore braf. Ia, pryfoclyd iawn ydi'r tywydd. Sbeitlyd hefyd ac oriog, hyd yn oed hefo plant.

Dydw i ddim yn or-hoff o dywydd poeth. Ydw, mi rydw i'n hoffi awyr las, ddi-gwmwl a chynhesrwydd. Dyna pam y bydda i'n osgoi gwledydd poeth yn yr haf ac yn dueddol o bicio i Majorca, neu'r 'Costa Llosgi Bol' yn yr hydref a'r gwanwyn.

Erbyn hynny mi fydd y *lager louts* wedi mynd adre i sobri ac mi fydd y pryfer wedi diflannu neu heb ymddangos. Na, dydi llygadrythu ar ferched ifanc siapus mewn bicinis yn cynhyrfu dim arna i bellach. Rhowch i mi wydriad neu ddau o win coch, llyfr go ddifyr, beiro a thawelwch ac mi fydda i yn dangnefeddwr, yn fy nefoedd fach fy hun.

Ond, yn ôl at yr haul. Mi ges i haul eleni yn y lle mwya annisgwyl, a choeliwch neu beidio ches i'r un tropyn o law yno. Oeddwn, roeddwn i o fewn tua 200 milltir i Begwn y Gogledd, ac fe gawsom rodio ar ddec y *Black Watch* a 'Haul Hanner Nos' yn gwmni nosweithiol i ni. Cofiwch haul isaol ydi haul yr Arctic, a rhaid lapio.

Mae'n arferiad, wrth groesi'r Arctic, i gael seremoni ar fwrdd y llong, pryd y cynhelir 'llys barn' a chael prif swyddogion y llong yn euog o wahanol droseddau. Y gosb ydi cael eich taflu yn eich dillad i'r pwll nofio. Do fe gafodd y Capten Arne Solberg, hyd yn oed, drochfa y bore hwnnw.

Arferiad arall ydi anfon un o'r cychod i gyrchu rhew i'r llong, ac yna agor dwsinau o boteli wisgi deng mlwydd oed. Mae blas arbennig ar wisgi deg oed a rhew sy'n ganrifoedd oed yn orfel yr Arctic. Ac am y tro cynta erioed mi welais dair arth wen (polar bears) yn eu cynefin, ac mi alla i eich sicrhau mai nid y wisgi a barodd i mi eu gweld. Na, roeddwn nhw yno.

* * *

Mae'r ddwy eisteddfod fwya yng Nghymru yn cael eu cynnal ym mis Awst. Y Brifwyl ddechra'r mis a Gŵyl Fawr Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan ar Wyl Banc Awst.

Gan mai beirniadu'r farddoniaeth roeddwn i yno eleni mi ges i fwy o gyfle i ymlacio yn y Steddfod a chael cyfle i wrando ar gystadlaethau'r llwyfan. Dyma ŵyl sy'n denu'r goreuon o bob rhan o Gymru, gan fod y gwobrau a gynigir yn fwy hyd yn oed na'r Genedlaethol. Da oedd gweld seoligion Bro'r Eco yn llwyddiannus yno; Wmffra,

Mabon a Meira. Tipyn o ymdrech oedd hi i Wmffra a Mabon deithio i Lanbed ar y dydd Sadwrn a'r Llun. Ia, yn sicrhau fel hyn sy'n haeddu cael eu anrhydeddu gan Orsedd y Beirdd. Daliwch ati, hogia.

Pnawn Sul, mynd yn ôl fy arfer (pan fydda i yn Llanbed), i gapel Soar y Mynydd. Roedd hi'n gwrdd pregethu yno a'r cennad oedd y Parchedig Eifion G. Jones, Dinbych. Hogia Nant Llwyd (pileri yr achos yn Soar) yn awgrymu fod posibilrwydd cry i mi gael fy ystyried fel blaenor yno gan fy mod i'n pererindota mor selog i'r fangre yn ddiweddar.

Oedd, roedd hi'n brynhawn bendigedig yno. Sŵn emynau yn atsain dros y brynau. Roedd 'na dawelwch addolgar yno hefyd, ac roedd yr haul yn gwenu.

* * *

'I ble'r aeth yr haul?' dyna deitl y gân yntê! Wel, mi alla i eich sicrhau chi, mi roedd o yng nghyffiniau Pegwn y Gogledd am hanner dydd a hanner nos, ac mi roedd o uwchben Soar y Mynydd ar brynhawn Sul braf ddiwedd Awst hefyd.

Ac, wrth i'r hen blant ymlwybro tua'r ysgol, mae o yma hefyd ym Mhenisarwaun y bore 'ma. Dydio'n gallu bod yn bryfoclyd!

Ond 'I ble'r aeth yr haf?' Wel, cwestiwn arall 'di hwnnw.

Cwmni Adwy Cyf

Siop / Swyddfevdd / Gweithdai yn Neiniolen

Mae gan Cwmni Adwy Cyf Siop, Swyddfevdd a Gweithdai wedi eu hadnewyddu ar osod ar y Stryd Fawr, Deiniolen. Mae'r unedau rhwng 12m² a 74m² hefo rhent yn amrywio rhwng £67 a £358 y mis (gan gynnwys TAW a chost gwasanaeth)
(Unedau eraill ar gael yn Nhalysarn, Bethesda a Blaenau Ffestiniog)

Am fwy o fanylion cysylltwch â

Cwmni Adwy Cyf
3 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR

(01286) 678221
Facs: (01286) 677064



Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

RACCA PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

GORSAF BETROL



DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TIGEDI LOTERI AR WERTH YMA!



GARETH GRIFFITH A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggeo@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Enw Arall



Dyna'r wrennol. Enwau eraill amdani yn Gymraeg yw Gwennol y Simdde a Gwenfol. Rhai da yw'r Cymry am eu henwau. Wedyn mae 'na ymadrodd, sef dihareb, sy'n mynd fel hyn 'un wrennol ni wna Wanwyn' ac yn ôl fy nyddiadur Byd Natur roedd teulu'r wrennol wedi ail-ddychwelyd i gyffiniau Llaugrug cyn Ebrill 24ain eleni. ond ar ddydd Llun, yr 2il ddydd ym mis Hydref dyma fynd ati i gofnodi eu hymadawiad, a hynny ar sail nas gwelais yr un ohonynt yn hedfan yng Nghae Ucha'. Onid galwad i ymada'l yw galwad ac ni fethodd Natur yn ei hanfod yr un tro. Ac fel y nodais Yr oeddwn wedi amau y dydd Sadwrn cynt fod na symudiad ar waith, a'r cywion eleni wedi ymgynnull ar wifren cludo trydan ac yn trydar yn ddi-baid. Ond mor anghywir ran cofnodi roeddwn i! Methais yn arw'n do! Hwyrach fod gan yr holl gynnwrf y bore dan sylw ryw bath i'w neud hefo dyfodiad glaw o'r Iwerydd, a gyrhaeddai'r parthau hyn ymhen rhai dyddiau. Yn sicr, roedd hi'n braf, ond yn nosi'n gynt. Yn sicr bu iddi oeri ryw damaid. Er hynny, roedd digonedd o bryfed oddeutu. Ac wedi'r glaw, heulwen, a phnawn Dydd Sadwrn ymhen yr wnos am ddeng munud i dri o'r gloch

'roedd hyd at bump i chwe gwennol yn gwibio yma ac acw yn yr awyr uwchben Cae Ucha'. Roeddynt yn dal yma!

Y mae yn y Gymraeg lu o wahanol goelion sy'n ymwneud â darogan y tywydd ym myd adar ac anifeiliaid. Ni fwriadaf ymhelaethu ar hyn; dim ond dweud fod y goel a'r gred bod gwenoliaid yn hedfan yn uchel yn arwyddo tywydd braf, (am fod y gwybed/piwiaid), am wn i yn hedfan yn uwch, a bod yr adar hyn, pan font yn hedfan yn isel, yn darogan glaw.

Un Sul gwrandewais ar ddau ddoethyn; fy nhad sy'n 86 mlwydd oed, a'm marn sydd bedair mlynedd yn iau, yn canmol y wrennol am ei doethineb yn dyfod i Gymru dros gyfnod byr o amser er mwyn nythu yma ac yna'n mynd ati hefo'i theulu i groesi'r moroedd yn eu holau i Affrica. Roedd y ddall y bûm yn siarad â hwynt o'r farn fod y wrennol yn hynod ddarbodus ynghylch deall arwyddion y tywydd ac yn gallach nac unrhyw broffwvd, neu broffwydes tywydd a gyflogir gan radio sain a theledu! Y gwir amdani yw eu bod ar y Cyfryngau hefo'r

Arlunio ag Edau



Moira Ellis, Gweledfa yn arddangos ei gwaith 'Arlunio ag Edau' yn Oriel Mynydd Gwefru Llanberis.

taclaua rhag-broffwydo'r tywydd mwyaf soffistigedig. Ac eto y mae'n hawdd methu. Ni ellir rhagweld yn ormodol ychwaith.

Y gwir amdani ym myd yr wrennol ydyw mai bwyd ydy bwyd, a ffactor holl bwysig yn ei bywyd yw'r ddibyniaeth ran greddf o'i heiddo i ganfod bwyd ar wahanol lefelau yn yr awyr. Tywydd gwlyb - mae'n hedfan yn isel ac yna ar hindda y mae'r gwybed/piwiaid yn yr uchelfannau, a rhaid ymorol am hedfan yn uwch, neu lwgu. Ni fydd hyd yn oed aderyn i'r cywion drengi. Rhaid, yn nhymor nythu, hela'n ddiwyd am fwyd, a hynny'n gyson am oriau maith. Y mae peth girionedd yn y coelion tywydd hyn ynghylch y gwenoliaid. I rai ohonom gwennol yw gwennol, aderyn a ddaw dros dro i aros atom. Perthyn iddi wahanol deuluoedd ac nid pob un ohonynt sy'n nythu yn yr un lle, ond gyda'r wrennol mewn golwg, y mae'n arwydd tra ffodus os y daw hi i'r un fan yn flynyddol er mwyn adeiladu ei nyth. Does ond gobeithio y byddaf yma fis Ebrill nesaf i fwynhau gweld ei dychweliad i'r rhan yma o Gywru. Yn sicr eleni rhoddodd imi obaith; rhoddodd i mi gysur o'r mwyaf.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnio

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Wavell Roberts CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Dewch i'r ganolfan newydd am fargeinion dodrefn



yng Nghapel Mawr

LLANRUG

Ffôn: 074141

Ar agori Llun - Sad 10-9;
Sul 10-4

Rygiau, Cabsio, Byrddau,
Cypyrddau dal llyfrau,
Desgiau, Cadeiriau, Sofas,
Gwelyau ayyb

Am lwythi pell ac agos, cysylltwch â'r symudwr smart... Y cludwr clên...

TM JONES

Cil y Coed, Dwyran, Ynys Môn, LL61 6YD

Llwythi mawr a bach • Clirio Tai • Domestig a Masnachol • Cyngor Cyfeillgar • Prisiau Cystadleuol

Ffôn: (01248) 430 126 • Symudol (07788) 703 659

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.

Cwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CHWILOTA

Chwilio Hen Diroedd Llywelyn



Yn ystod y mis a aeth heibio treuliais gyfnod byr yn Swydd Amwythig, gan aros noson neu ddwy yn hen dref Ellesmere gyda'i llynoedd bendigedig. Nid yw'r ardal ymhell iawn o'r terfyn â Chymru ac, er fod y gororau wedi Seisnigo ers canrifoedd, diddorol oedd sylwi ar lawer o enwau Cymraeg a Chymreig ar bentrefi, ffermydd ac ardaloedd gwledig. Cyd-ddigwyddiad hefyd i erthygl ymddangos yn yr 'Eco' fis diwethaf, am Gwenllian, gysylltu â'r ardal hon yn Swydd Amwythig.

Mae'n ymddangos mai'r Normaniaid a sefydlodd gastell cyntefig yn Ellesmere tua'r flwyddyn 1120. William Peveril oedd yn gyfrifol am hynny ac, i'r rhai ohonoch sydd wedi darllen gwaith Syr Walter Scott, roedd y gŵr hwn yn gymeriad amlwg yn un o'i nofelau llai adnabyddus, sef *Peveril of the Peak*. Yn fuan wedi hyn mae'r cysylltiadau Cymreig yn cychwyn.

Yn 1155 cafwyd William Peveril yn euog o wenwyno Iarll Caer a hawliwyd Ellesmere oddi arno gan y Goron. Harri'r II oedd y brenin bryd hynny. Yn ddiweddarach, cyflwynwyd Ellesmere yn waddol priodas i Owain, un o dywysogion gogledd Cymru, pan briododd hwnnw â chwaer y brenin. Erbyn 1188 roedd Gerallt Gymro yn recriwtio dynion o Ellesmere i ymuno â Marchogion Sant Ioan ar y drydedd Groesgad.

Wedi carcharu Owain gan Llywelyn Fawr, hawliwyd Ellesmere yn ôl i ddwylo Coron Lloegr gan y Brenin John ond, unwaith eto, fe'i dychwelwyd i ddwylo'r Cymry yn waddol priodas Siwan, merch y brenin, pan briododd hithau â Llywelyn.

Daliodd Llywelyn ei afael yn Ellesmere a'i thiriogaethau am chwarter canrif cynhyrfus, o 1205 hyd 1230. Yn ystod y cyfnod byr hwn, llosgwyd y dref yn ulw ond, erbyn 1216 roedd wedi ei hail-sefydlu a chyflwynwyd iddi ei siarter cyntaf.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, rhoddodd Llywelyn yr hawl i gynnal marchnad yno ar ddydd Mawrth; marchnad sy'n parhau hyd heddiw. Yn y cyfnod hwn hefyd y cyflwynodd Llywelyn tua hanner y dref, ac erwau helach o dir yn y cyffiniau, i Urdd Marchogion Sant Ioan o Caersalem. Parhaodd yr Urdd i weinyddu'r eiddo hwn hyd 1778.

Roedd diwedd y cyfnod Cymreig bron ar ben ac, yn 1230, hawliwyd Ellesmere yn ôl unwaith i'r Goron Lloegr. Pan laddwyd Llywelyn ein

Llyw Olaf (tad Gwenllian) ym mis Rhagfyr 1282 ar gyrch yng nghyffiniau Llanfair ym Muallt, mintai o filwyr Ellesmere oedd yn ei erlid.

Ond mae olion yr enwau Cymreig yn parhau. Dyna Welshampton, Welsh Frankton a Welsh End yn y cyffiniau, ac y mae mân bentrefi eraill gerllaw, megis Pentre Madog, Pentre Morgan a Pentre Coed. A beth am enwau'r plasdai megis Plas yn Grove, Gadlas Hall a Perthi (ond wedi ei sillafu'n Perthy, bellach). A phwy erbyn heddiw fyddai'n sylweddoli mai'r enw cywir ar 'Willow Road' yn y dref ei hun yw 'Gwalia Road', am mai honno oedd yn arwain tua Chymru, ac nad ocs unrhyw gysylltiad â phren helyg yn yr enw.

Teulu Tŷ Beili

Yn dilyn cais Eifion Roberts am wybodaeth am y teulu yn llun y ffotograffydd Symonds, a gyhoeddwyd y mis diwethaf, daeth galwad ffôn gan Mrs Margaret Ellis o Nantperis, gyda sicrwydd mai llun rhai o drigolion y Nant sydd yn y llun. Ar y chwith yn y llun mae Robert Jones, clochyd yr eglwys, gyda'i chwac, Elin Ann. Roeddent yn byw yn Tŷ Beili neu Tŷ Bailey (tybed a gafodd ci enwi ar ôl Peter Bailey Williams a fu'n rheithor Llanrug a Llanberis bron i ddau gan mlynedd yn ôl?), eiddo i'r eglwys. Yno, yn draddodiadol roedd y clochyd yn byw. Cafodd y tŷ ei droi yn ddiweddarach yn 'Church House', a symudodd Robert Jones ac Elin Ann i Dôl Peris, tŷ ar draws y ffordd i Tŷ Beili, oedd hefyd yn eiddo i'r eglwys. Mae Tŷ Beili bellach yn cael ei ddefnyddio gan Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol a Thim Achub Mynydd Llanberis.

Y trydydd person yn y llun yw'r Parch Hugh Lunt, rheithor y plwyf. Credaf iddo ddod yn wreiddiol o gyffiniau Penrhyn Llŷn.

Docdd gan Mrs Ellis ddim syniad pwy oedd y genethod yn y llun, ond credai fod llun o Elin Ann wedi ymddangos yn yr 'Eco' flynyddoedd yn ôl, a hynny ar gefn beic, yng

nghwmni nifer o ferched eraill. Oes rhywun yn fodlon bodio trwy'r hen rifynnau i chwilio am y llun hwnnw? Ac, o wybod pwy yw tri o'r bobl yn y llun, a oes digon o wybodaeth i geisio darganfod pwy yw'r genethod?

Cofio Gwenllian

Yn dilyn yr erthygl y mis diwethaf am hanes y Dywysoges Gwenllian, cysylltodd Mallt Anderson (Ysgrifennydd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian) â Mr Leslie Roberts o Glwt y Bont. Eglurodd mai carreg o Chwael Penmaen-mawr a ddefnyddiwyd i goffau'r dywysoges yn Sempringham, a phan godwyd y garreg a'i rhoi i sefyll ar ei thraed 'daeth yr amlinell ryfeddol o leian yn plygu ei phen i'r amlwg'. Os oes rhai o'r darllenwyr â diddordeb mewn gwybod mwy am waith y Gymdeithas, yna cysylltwch â'r ysgrifennydd yn 158 Lake Road East, Parc y Rhath, Caerdydd. CF23 SNQ.



Cofeb y Dewrion

Chwi gofiwch i mi wneud cais y mis diwethaf am wybodaeth ynglŷn ag awdur y gyfrol hon, sef W. J. Owen, genedigol o Lanrug. Cefais alwad ffôn gan aelod o'i deulu, yn cadarnhau'r manylion, a llythyr hefyd gan Mrs J. Williams o Ddciniolen. Gyda diolch i'r ddwy ohonoch am y wybodaeth, sydd bellach wedi ei drosglwyddo i'r ymchwilydd.

Carthen Pwllheli


Daeth mwy o wybodaeth i law hefyd ynglŷn â charthen arall o felin Pontrug. Mae honno'n hongian ar wal tŷ ym mro'r 'Eco'. Gobeithiaf roi mwy o'r hanes erbyn y tro nesaf.

Hobley a Hume

Mae gwybodaeth am y teulu yn parhau i ddod i law, ond bydd yn rhaid cau pen ar y mwdwl erbyn y tro nesaf er mwyn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf.

Cofiwch anfon unrhyw bytiau o wybodaeth neu luniau yn ymwneud a hanes bro'r 'Eco' i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646



& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.


Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen, Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychiolir Goed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MERCHED Y WAWR.

Croesawodd yr Ysgrifenyddes, Bethanne Williams, yr aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor nos Fawrth, 10 Medi. Dymunwyd gwellhad buan i'r Llywydd, Menna Williams yn dilyn damwain yn ddiweddar a Meirwen Lloyd, yr is-Lywydd sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd aelodau Pwyllgor Rhanbarth yr Anabl a lwyddodd i godi £2,200 at achos Alzheimers a diolchodd Beryl Thomas, ein cynrychiolydd ar y pwyllgor, i aelodau'r gangen am eu cefnogaeth.

Os am brynu cardiau Nadolig neu galendr Merched y Wawr cysyllter â'r ysgrifenyddes.

Y wraig wadd oedd Miriam Jones sy'n gyfarwydd i ni i gyd fel perchennog Siop y Plas yng Nghaernarfon. Mae hi bellach yn gyd-berchennog ar siop arall yn Stryd y Plas, siop ddillad o'r enw Manon. Os am ddillad o ansawdd da a gemwaith hyfryd ewch draw i Gaernarfon. Esboniodd Miriam iddi sylwi fod pobl o Gaer yn dod i Siop y Plas i chwilio am emwaith a'i gobaith yw y bydd mwy o bobl yn dod i'r dref rwan i brynu dillad. Byddai gweld mwy o bobl leol yn dechrau busnes yng Nghaernarfon yn rhoi boddhad mawr iddi.

Diolchodd Meryl Green iddi am gyflwyno hanes y fenter mewn modd bywiog a chartrefol ac am ddod a'r dillad a'r gemwaith i'w harddangos. Diolchwyd iddi am y wobwr raffl ac edrychwn ymlaen at y Sioe Ffasiynau sydd i'w chynnal yng Ngwesty Meifod. Ann Lloyd Griffith a Megan Roberts oedd enillwyr y gwobrau.

Diolch i Olwen, Ann, Megan a Gwenda am baratoi'r baned. Twm Elias fydd y gŵr gwadd y mis nesaf a'i destun fydd Planhigion a Llên Gwerin. Dewch draw felly i'r Ganolfan ar 8 Hydref am 7.30.

YR YSGOL GYMRADD. Dyma ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Gobeithiwn yn fawr y cawn eich cefnogaeth i weithgareddau'r flwyddyn fel y cawsom drwy'r blynnyddoedd a fu.

Mae'r deugain disgybl bach newydd yn ymgartrefu'n hapus yn

y Dosbarth Meithrin. Croeso iddynt i'n plith. Braf hefyd yw gweld ein cyn-ddisgyblion sydd ym mwyddyn 7 Ysgol Brynrefail yn galw heibio i'n gweld ar derfyn eu diwrnod ysgol.

Llongyfarchiadau i Mr Wyn Griffiths a'i teulu ar enedigaeth mab bychan., Huw Morgan, ac i Anti Sharon a'r teulu ar enedigaeth Liam.

Treuliodd disgyblion Bl. 5 a 6 dri diwrnod yn dilyn gwaith maes yng Ngwersyll Glanllyn. Roedd y tywydd yn berffaith ar gyfer y gwaith a phob un wedi cael budd a mwynhad o'r profiad.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Persis James, Bryn Mair, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Morgan a Nicola ddiolch yn ddiffuant am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Rhys Ifan, ŵyr cyntaf Bethanne ac Idwal, Disgwylfa.

DYMUNA Idwal a Bethanne, Disgwylfa ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd atynt ar eu profedigaeth o golli tad a thad yng nghyfraith.

DIOLCHIADAU. Dymuna Cliff a Vera Williams, Awelon ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Rudder.

Hoffai Megan a Bert, 12 Ffordd Glanffynnon ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ag anrhegion a dderbyniwyd pan yn dathlu eu Priodas Aur.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Gwion a Meinir, Ystrad ac i Bedwyr a Lisa, Gorlan y Rhos ar dathlu eu dyweddiad. Pob dymuniad da i chwi.

BABIS NEWYDD. Llongyfarchion mawr i Meurig a Mary Parry, Gwelfynydd ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd Jac i Tudur ac Ella, brawd bach newydd i Tomos. Hefyd i Islwyn ac Eryl Roberts, Bryn Moelyn ar ddod yn daid a nain i ferch fach newydd lolo ac Aislinn yn Wrecsam, ganwyd Niamh ar 15 Medi.

Llwyddiant Dawnsywyr



DAWSWYR CAERNARFON: Enillwyr Tlws Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi 2002.



DAWSWYR CAERNARFON. Ymarferion yn yr Aelwyd, Stryd yr Eglwys bob nos Iau am 7.30. Croeso i aelodau newydd.



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluoel gydag 20 mlynedd o brofiad o

reddeg Pecynnau Gwylliau oll-gynhwysol

GWASANAETH LLEOL AR CYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

RHOSTIO MOCHYN



AR CYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Cyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

DATHLU **PEN-BLWYDD.** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr Arthur Ellis, Min y Nant fu'n dathlu cyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt; Mrs Angela Price, Dôl Maen; Mrs Catherine Williams, Stad Tŷ Hen a Mr Wil Jones (Yncl Wil Beic fel yr adnabyddir ef yn annwyl gan blant y pentref) adref o'r ysbty. Dymunwn y byddwch yn teimlo'n well wedi cael dod adref.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Rhiain Llywela a Mrs Katherine Williams, y ddwy o Stad Tref Eilian sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd.

DIOLCH. Gorfu i Robat, mab bychan Derek ac Eleri, Stad Tŷ Hen dreulio cyfnod yn yr ysbty ond braf cael dweud ei fod adref erbyn hyn. Dymuna'r teulu ddiolch am bob caredigrwydd y maent wedi ei dderbyn yn ystod cyfnod salwch Robat ac i'r Ysgol Feithrin am rannu eu rhodd ariannol gyda hwy. **GWELLA.** Rydym yn falch o weld fod Miss Marian Wyn, Y Foel, wedi cael tynnu'r plaster caled. Roedd wedi disgyn a thorri asgwrn yn ei llaw.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad at Miss Maxine Lewis, Stad Tŷ Hen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn frawychus o sydyn.

LLONGYFARCHIADAU **EISTEDDFODOL** i Mr Wmffra Jones, Glaslyn ar ddod yn fuddugol ar ganu emyn yn Eisteddfod Tregaron, ac i Alun Mabon ar ddod yn ail iddo.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 5 Medi yn Festri Croesywaun. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs Catherine A. Jones, y Llywydd a Mrs Anne V. Williams, yr Ysgrifennydd. Mrs Mair W. Williams, yr is-Llywydd oedd yn y gadair a Mrs Pat Parry, yr is-Ysgrifennydd. Dymunodd y Llywydd yn dda i Mrs Catherine A. Jones, sydd wedi cael llawdriniaeth, ac i Mrs Anne Williams, sydd wedi cael damwain.

Y wraig wadd oedd Mrs Audrey Jones, Llywydd Ffederasiwn Cymru. Cafwyd arddangosfa ddiddorol ganddi o'i gwaith 'Decoupage' a chafodd pob aelod gyfle i wneud cerdyn. Roedd dwy

aelod o Feddgelert wedi ymuno hefyd am y pnawn. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Pat Parry.

DIOLCH. Dymuna Mrs Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt a'r teulu i gyd diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn ystod eu profedigaeth o golli Eric. Diolch yn fawr i bawb.

HOFFAI Mrs Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt ddiolch yn ddiffuant i'r teulu, cymdogion a ffrindiau lu am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Llandudno ym mis Awst.

DYMUNA Mary Jones, Llwyn Afon ddiolch o galon i staff a phlant Ysgol Waunfawr am eu caredigrwydd a dymuniadau da ar achlysur ei hymddeoliad.

YR YSGOL. Cafwyd tri chyfarfod go arbennig yn yr ysgol ddiwedd y tymor diwethaf. Dydd Mercher, 17 Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod gwobrwyo yr ysgol. Daeth Mrs Eryl Thomas, y gyn-brifathrawes i gyflwyno tarianau i'r plant. Enillydd y Darian Gelf eleni oedd Helen Mai, Bl.6, enillydd y Darian Ymdrech oedd Liam Rowlands, Bl.5, enillwyr y Tarianau Mabolgampau oedd Sam Markham, Bl.4 a Sharon Hanks, Bl.4. Ild Griffith, Bl.5 oedd enillydd y Darian Gywaith. Derbyniodd Rhydian Jones, Dewi Clarke a Sam Markham docyn llyfr fel enillwyr cywaith dosbarthiadau 4,5 a 6. Derbyniodd Leah Owen, Bl.3 docyn llyfr am gasglu'r swm uchaf yn y Noddi Taith Felcs.

Dydd Iau, 18 Gorffennaf daeth Mrs Ann Martson a'i merch i roi datganiad cerddorol i'r plant ac i gyflwyno'r Darian Gerdd i Ffion Williams, Bl.6.

Dydd Gwener, 19 Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaeth i ffarwelio â blwyddyn 6 ac hefyd gyda Anti Mary o'r gegin. Cyflwynodd y Cynghorydd Gwilym Williams eiriaduron i'r disgyblion oedd yn gadael, a chyflwynodd siec ar ran yr ysgol i Anti Mari, gan dalu terynged arbennig iddi hi am ei gwaith dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Sylvia Thompson sydd wedi cychwyn yn y gegin. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

HOFFAIr Pennaeth ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

LLANRUG (Parhad)

Cae Chwarae Cymunedol
Nant y Glyn Llanrug

Adroddiad diweddaraf i'r pentref: Ysgrifennydd Pwyllgor Cae Chwarae Robin Williams

Ar ôl misoedd o ymgynghori gyda thrigolion Llanrug, Swyddogion Cyngor Gwynedd, Swyddogion y Loteri a'r Cyngor Chwaraeon rydym ni bellach mewn sefyllfa i roddi adroddiad yn ôl i drigolion Llanrug.

Dros yr wythnosau diwethaf mae cofnodion a chynlluniau'r pwyllgor wedi cael eu harddangos yn y caffi ac mae nifer fawr o blant a phobl ifanc wedi ymateb.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae swyddogion y Cyngor Cymuned wedi bod yn gwneud gwaith ymchwilio i sefydlu perchnogaeth y cae a'r statws elusennol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae hyn wedi bod yn broses hir a chymhleth gan fod angen trosglwyddiad o ddogfennau cyfreithiol ac amodau datblygu'r elusen.

Yn y cyfamser rydym wedi bod yn ymgynghori'n helaeth gyda'r asiantaethau canlynol i gael cyngor ar y ffordd orau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

Cyngor Cymuned Llanrug;

Gwasanaeth Masnachol

Gwynedd;

Mr Neil Pringle, Swyddog

Sportlot y Cyngor Chwaraeon;

Mr Elwyn Jones, Swyddog

Cronfa Cymunedol;

Mr George Watson, Swyddog

Cynllunio Adnoddau Hamdden;

Mr Eurwyn Griffiths, Swyddog

Adfywio Dyffryn Peris.

Yn dilyn ymgynghori rhoddwyd nifer o opsiynau ar ffurf cynlluniau drafft i drigolion Llanrug gael eu trafod, yn y gobaith y byddai modd symud ymlaen yn weddol fuan yn dilyn trosglwyddiad perchnogaeth y cae.

Roeddem wedi gobeithio cael y cacau pêl-droed yn barod erbyn Medi 2002 ond, yn anffodus, roedd cyflwr y cae mor ddrwg doedd swyddogion Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth Masnachol Gwynedd ddim yn fodlon i'r gweithwyr fynd i'r cae gyda'r peiriannau.

Mae pris bellach wedi ei dderbyn i ail osod wnech newydd ar y cael pêl-droed ac i glirio'r safle o sbwriel, rwbel, brics a darnau metel.

Bellach mewn ymgynghoriad gyda swyddogion y Cyngor Sir rwyf wedi paratoi cynllun datblygu dros 3 blynedd i'w drafod gan y Pwyllgor Cae Chwarae.

Cam 1

Medi 2002 - Haf 2003

Clirio'r cae / Gosod wyneb newydd: £ 3,860: Cwmni S.G. Hughes, Bac Colwyn; Clirio cornel ar gyfer maes parcio: £1,000

Cam 2

Haf 2003 - Haf 2004

Clirio arwynebedd ar gyfer Parc sgelfrio 30medr wrth 20 medr + llwybr, Gosod hardcore + tarmacio: £10,000

Cam 3

Haf 2004 - Haf 2005 Cae chwarae amlbwrpas Dan 7 oed gyda ffens 20medr x 20medr

O ble ddaw'r arian? Mae angen sicrhau cyllid o sawl cyfeiriad: Nawdd gan Fusnesau Lleol; Ymgyrch leol i godi arian o fewn y pentref;

Grantiau Loteri / Cymunedol;

Cyngor chwaraeon;

Cronfeydd adfywio.

Yn ystod y pythefnos nesaf mae'r ymgyrch leol yn dechrau o ddifrif.

Drwy garedigrwydd Mr Dave Rochell a Mrs Gill Rochell Tafarn Glyntwrog mae Noson 'Garioci' arbennig wedi'i threfnu Nos Sadwrn, Medi 21 am 7.30p.m.

Mae'r dafarn eisoes wedi cyfrannu £200 mewn un gweithgaredd ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n mynychu'r dafarn am eu cefnogaeth.

Cae Chwarae Glanmoclyn
Llanrug

Mae'n braf gweld fod gwaith torri gwair wedi cael ei wneud yn ystod yr haf ar gae chwarae Glanmoclyn. Roedd y cae mewn cyflwr difrifol ac mae'r lluniau yn profi fod y plant wrth ei bodd gyda'r newidiadau.

Mae'n bwysig yn awr i bawb dderbyn cyfrifoldeb am y caeau chwarae yma ac i sicrhau fod sbwriel yn cael ei glirio'n rheolaidd.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

cyngor
ar
bopeth

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Ysgol Brynrefail

Ein Prif Ddisgyblion 2002-2003



(O'r chwith) Sionwyn, Ffion, Iwan, Kate a Dafydd

Llongyfarchiadau i'r prif ddisgyblion a dymuniadau gorau iddynt yn ystod y flwyddyn.

Prif Eneth:

Ffion Owen, Bethel

Prif Fachgen:

Iwan Williams, Llanrug

Dirprwy Brif Eneth:

Kate Beard, Llanrug

Dirprwy Brif Fachgen:

Dafydd Pritchard, Llanberis a Sionwyn Morris, Llanrug

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail Enillwyr Clwb Cant

Gorffennaf 2002

£31.00: (38) Mrs Mary W. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel; £18.60: (48) Ms Eirwen Williams, Nofâr, Bae Trearddur; £12.40: (15) Mrs Morfudd Thomas, Cilfynydd, Bethel.

Awst 2002

£31.00: (116) Fiona Davies, Llwyn Celyn Bach, Llanberis; £18.60: (23) Mrs Meryl Green, Anedd Wen, Pontrug; £12.40: (45) Mr Kevin W. Jones, Cae Corniog Bach, Penisarwaun.

Medi 2002

£31.00: (28) Dr Gwyn Williams, 3 Preswylfa, Llanberis; £18.60: (19) Mrs Elsie Owen, Hafod y

Rhos, Llanrug; £12.40: (114)

Mr Colin Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

Llongyfarchiadau a diolch am eich cefnogaeth

Dyddiadur y Mis
Nos Iau, 17 Hydref am 6.30 y.h.
Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Eisteddfod yr Ysgol
Yn barod mae paratoi ac ymarfer at y Steddfod flynyddol wedi dechrau. Gwahoddwn chi i Neuadd Ysgol Brynrefail i ymuno yn yr hwyl ar 17 Hydref am 6.30 yr hwyr. Gwylwch allan am adroddiad mewn rhifyn pellach o'r Eco.


GWYN JONES PLYMIO

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSGH, MBCHA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Groen Galed; Verrugae; Gyn a Ghroen Galed; Ewinedd yn tyfu i'r bywi; Terri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu
07747 696267 (symudol)

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Mabolgampau'r Ysgol

Braidd yn hwyr ond dyma ganlyniadau y cystadlu rhwng y pedwar tî am eleni.

1af - Gwyrfai;

2il - Elidir;

3ydd - Eilian;

4ydd - Eryri.

Aeth y Victrix Ludorum i Sarah Perrin, Bl.10 o dî Gwyrfai a'r Victor Ludorum i Iwan Morris, Bl.10 o dî Eryri, y ddau ohonynt gyda 40 o farciau. Llongyfarchiadau i'r ddau. Gwobrwyd y canlynol am

farciau gorau'r flwyddyn:

Bl.7: Lois Jones (Elidir); Ian Morris Jones (Gwyrfai).

Bl.8: Llinos C. Roberts (Eryri); Dylan Eddy (Elidir).

Bl.9 Angharad Jones (Gwyrfai), Dafydd Meredydd (Elidir).

Da iawn chi, a gobeithio y byddwch i gyd yn cynnal y safon uchel a welwyd ar y diwrnod pwysig yma yng nghalendr y flwyddyn.



Sarah Perrin ac Iwan Morris yn cael eu cyflwyno gan y Prifathro

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwrthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

FFAIR GREIRIAU FAWR YNYS MÔN

Maes Sioc Môn, Mona (ar yr A5)

Dydd Sadwrn a Dydd Sul Hydref y 5ed a'r 6ed
10.00 - 5.00

Arwerthwyr Dodrefn a hen greiriau
o bob ran o Brydain

Mynediad £2.00

Parcio am ddim

Lluniaeth Ardderchog

Ffair Greiriau Pwysicaf Gogledd Cymru



Pencampwyr blwyddyn gyda chapteiniaid Gwyrfai.

Ymweliad Mr Taylor â'r Ysgol

Yn ddiweddar ymwelodd Mr Taylor â'r ysgol i sgwrsio hefo disgyblion Blwyddyn 8 am ei waith gwirfoddol gyda thîm Achub ar Fynyddoedd Eryri. Dangosodd sleidiau diddorol yn ogystal â pheth o'r offer fydd yn

cael ei ddefnyddio pan fydd pobl yn mynd i drafferthion wrth ddringo. Erbyn diwedd y sgwrs roedd pawb yn gwybod pa mor bwysig yw defnyddi'r offer cywir pan fyddwn yn dringo.



Un... dau... tri... i fyny â ni!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Wythnos Trawsgwricwlaidd

Erbyn diwedd y flwyddyn ysgol, pan mae pawb wedi blino ar y 3R's, mae'n draddodiad bellach i gael wythnos o weithgareddau addysgiadol tra gwahanol i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9.

Bu Bl. 9 yn dringo ac yn gwneud gweithgareddau Addysg Gorfforol; yn cyfansoddi gan ddefnyddio'r

dechnoleg newydd ym myd cerdd; yn gwneud gwaith celf yn Llanberis; yn ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis a blasu bywyd chwarelwyr ac, yn olaf, taith gerdded drwy goedwig Niwbwrch ac ar hyd glan y môr Llanddwyn.

Wythnos brysur iawn iddynt ond doedd neb yn cwyno rhyw lawer!



Hwyl ar draeth Llanddwyn i ddisgyblion bl.7.

Ym mlwyddyn 8 cawsant ymweld â safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Crafllyn (ger Beddgelert), i astudio effaith pobl ar yr amgylchedd a gwneud gwaith maes cadwriaethol. Dyfalu a dilyn llwybr Mathemateg yn yr ysgol, ymweld ag Eglwys Sant Mihangeel a Gorsaf Bŵer Dinorwig; Journée Française, sef diwrnod o hwyl Ffrengig a chyfle i goginio bwyd Ffrengig traddodiadol, ac yn olaf, beicio ar hyd lôn Eifion o Fryncir i'r Felinheli. Digon o awyr iach i bawb.

Aeth blwyddyn 9 ar daith lenyddol o gwmpas yr ardal i leoliadau â chysylltiad llenyddol a Helfa Drysor ym Mharc Glynllifon. Taith diwrnod cyfan ar y mynyddoedd a gweithdy drama yn yr ysgol dan ofal yr actores Tammi Gwyn. Diwrnod arall yn

gwneud gweithgareddau ym Mharc Cinnel, gan gynnwys ymarferiadau datrys problemau a chwis addysg gorfforol, wedi ei drefnu gan y fyddin! Yn olaf cwrs Technoleg Gwybodaeth oedd yn ragarweiniad i gwrw Technoleg Gwybodaeth Galwedigaethol CA4.

Felly wythnos brysur tu hwnt i'r disgyblion a'r athrawon a phawb yn cael profiadau diddorol a newydd. Tipyn o waith trefnu ar hyn i gyd i gael pawb yn eu lle ar yr amser iawn. Diolch i Mrs Eirwen Williams am ddod a phopeth at ei gilydd mor llwyddiannus.

Llongyfarchiadau i David Cashman, Bl.8 a Dylan Eddy, Bl.9 am gael eu dewis i dîm pêl-droed -13 Gwynedd. Tipyn o gamp gan gysidro maint sir Gwynedd. Da iawn chi hogia ac edrychwn ymlaen am fwy o'ch hanesion.



Barod am waith.



Bl.8 - Wythnos trawsgwricwlaidd Mathemateg. Y tîm buddugol yn y gweithgaredd adeiladu a drefnwyd gan y C.I.T.B.

BEICS WIL



BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU



SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

Cwrs Gweithgareddau Awyr Agored Glanllyn Ysgolion Arfon

Mae'r cwrs poblogaidd yma wedi symud bellach i ddechrau tymor yr Hydref ac yn agored i ddisgyblion Blynnyddoedd 5 a 6.

Fe drefnwyd y cwrs cyntaf ar y cyd rhwng Alun Roberts a Robin Williams gyda swyddogion Glanllyn 'nôl yn 1987 gyda dwy ysgol. Ers 1991 mae ysgolion eraill wedi dod i mewn i'r cynllun yn achlysurol, a bellach mae dros 130 o blant yn cael y cyfle i dreulio 3 diwrnod gyda'i gilydd yn profi a mwynhau amrywiaeth o weithgareddau awyr agored.

Dros y blynnyddoedd mae cannoedd o blant wedi bod ar y cwrs yma ac mae swyddogion Glanllyn bellach wedi sicrhau bloc sefydlog i'r ysgol ar ddechrau Medi i wneud yn fawr o'r tywydd.

Eleni roedd disgyblion B1 5 a 6 Llanrug, Y Gelli, Waunfawr, Bethel a Bontnewydd yno.

Ymysg y gweithgareddau awyr agored ar gael i'r plant roedd, canwio, rhwyfo, hwylio, dringo. Datrys problemau a gweithio mewn tîm, bowlio deg a chwaraeon tîm yn y gampfa.

Roedd y tywydd yn fendigedig a phawb wedi mwynhau pob munud o'r profiadau.



Dyma rai o blant Llanrug, Waunfawr a Bethel ar y cwrs.

Mae'n braf gweld disgyblion o nifer o ysgolion yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cymysgu mor dda.

Fe hoffwn ddiolch i'r athrawon ar ran y plant am wirfoddoli amser i roddi profiadau mor gyfoethog i'r plant. Ychydig iawn o blant cynradd Cymru sy'n cael y profiadau yma bellach.

Mae ymroddiad a gofal yr athrawon yn amhrisiadwy.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Taith i Godi'r Galon

Cyngordd yn Llawn hwyl
yn eich bro



Idris Charles
Robin Jones
Laura Sutton
Gareth Owen



Noson nwyb
i'r teulu

£4 yn unig



Broc Mor a Hywel Gwynfryn neu Arrol Jones

+ gwestai arbennig.....

Heather Jones

Caernarfon

Theatr Seilo

9fed Hydref

tocynnau ar gael drwy ffonio: 01352 700195

HSBC

COLFMDYGAU CYMRU
ARTSMALES

GARI

Cynhyrchiad
Pantfordd

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyhoeddiadau pwysig: Cynllun Datblygu Unedol, Cyngor Gwynedd

Mae croeso i unrhyw un o'r cyhoedd fynegi barn ond rhaid gwneud hynny cyn yr 28ain o Hydref. Mae copïau o'r drafft ymgynghorol ar gael gan y Cyngorwyr Sir:

Mrs Pat Larsen, Penisa'rwaun, Len Jones, Deiniolen, Huw P. Hughes, Bethel, y Clerc - John B Jones, Ceris, Deiniolen ac ym mhob un o'r llyfrgelloedd.

Rhoddion blynnyddol, derbynir ceisiadau oddi wrth fudiadau gwirfoddol i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref.

Aelod newydd - mae sedd wag yn dal i fod yn ward Deiniolen.

Hanes yr Ardal, bwriedir cyhoeddi hanes yr ardal, maes o law. Buasai'r Cyngor yn falch o glywed oddi wrth rai sydd â diddordeb yn hyn neu sydd â gwybodaeth berthnasol.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor nos Fawrth y 3ydd o Fedi yng Nghanolfan Penisa'rwaun. Roedd deg Cyngorydd Cymuned a'r Cyngorydd Mrs Pat Larsen yn bresennol. Llywyddwyd gan y Cadeirydd Richard Llwyd Jones, ef hefyd offrymodd y weddi ddechreuol.

Trafodwyd Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd gan dderbyn sylwadau'r tri Cyngorydd Sir. Penderfynwyd anfon yr

hysbyseb uchod i Eco'r Wyddfa ac i Llais Ogwan.

Cyflwynwyd yr atebion canlynol oddi wrth Adran Briffyrdd Gwynedd: gwneir yr hyn sydd ei angen i ddraenio'r dŵr gwyneb ar hyd Lôn Garat, Dinorwig; draen ger Tan y Waun, Deiniolen wedi ei dad-flocio; adroddiad wedi ei ddanfôn i Manweb ynglŷn â'r polyn ger cyffordd Allt Sam/Ffordd California; polyn trydan /goleuo newydd wedi ei osod ger Ael y Bryn Rhiwen. Mae cwestiwn pellach ynglŷn â'r hen ffordd wedi ei chau ger Bryn Coch, Dinorwig.

Amlygwyd pryder am na all gweithdai/siopau Parc Padarn weithredu yn eu ffordd arferol yn ystod y gystadleuaeth Triathalon.

Penderfynwyd peidio gwireddu cais am gysgodfan bws ychwanegol ym Methel.

Derbyniwyd adroddiad *Airwave* ar y bwriad i ddiweddarau system delathrebu yr Heddlu. Penderfynwyd gofyn iddynt be fuasai'r posibilïadau o dynnu'r cyfarpar i lawr pe bai anhawsterau yn ymddangos ar ôl eu gosod. Cyhoeddwyd cynhadledd *Cyffuriau ac Alcohol* yn Theatr Clwyd ar y 18ed o Fedi. Rhoddwyd manylion *Anabledd Dysgu* i'r Cyngorwyr sydd yn ymwneud â'r maes fel llywodraethwyr ysgolion.

(Parhad ar dudalen 13)

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH
Cyfarfu'r ymddiriedolwyr ar 31 Gorffennaf. Derbyniwyd pum cais am gymorth a dyfarnwyd cyfraniadau gwerth £1,950 fel a ganlyn:

Clwb Snwcer:	£300
Eisteddfod Gwaun Gynfi:	£200
Merched y Wawr:	£100
Y Seindorf:	£950
Yr Ysgol Feithrin:	£400

PRIODAS. Ar 1 Awst yng Nghapel Pendref, Bangor priodwyd Eleri, merch Glenys a'r diweddar Arthur Owen â Gareth Charles Bean, Minffordd, Bangor, mab Morwenna a'r diweddar Fred Bean. Dathlwyd y wledd briodas yn Oswalds, Bangor. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn Bwthyn Isaf, Deiniolen.

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, 17 Medi cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor. Cafwyd croeso cynnes gan Buddug Jones, y Llywydd, ac anfonodd gofion at rai oedd yn cwyno.

Cawsom ein diddori gan Dafydd Roberts a'i wraig, Shân Wheway mewn ffordd feistrolgar iawn, gyda'r delyn, y bib a'r fflwt a Shân yn canu ac yn cyfeilio. Canwyd amryw o ganeuon gwerin, rhai yn adnabyddus ac eraill yn newydd i ni. Adroddodd Dafydd a Shân beth o hanes eu cefndir a mwynhawyd y noson yn fawr iawn gan bawb.

Diolchwyd iddynt gan Alice Griffith a gofiai Dafydd a'i frawd yn dod ar eu gwyliau o Lwyngwrl i Ddinorwig at eu modryb a'u hewythr, sef John a Jane Mary Jones.

Ceir Swper Diolchgarwch ym mis Hydref a daw'r manylion cyn y noson hon cyn hir.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 26 Gorffennaf, bu farw Grace Jones, 11 Rhos Llwyn, Llangefni yn 73 mlwydd oed.

Roedd yn wraig annwyl i Owen Jones, yn fam i Arwel a'i bartner Heledd, ac i lola a'i gŵr, Gwilym, a nain i Ffion a Ieuan. Roedd yn chwaer i Eirlys, Gwladys a Bleddyn, a'r diweddar Hugh, Griff a Gledwyn.

Yn enedigol o Gaer Bleddyn, Penisarwaun, symudodd y teulu i fyw i Rhes Dinorwig, Clwt y Bont pan oedd yn ddeg oed. Bu'r angladd yn amlogfa Bangor a

rhoddwyd ei llwch i orwedd ym mynwent y dref, Llangefni.

Gweinyddwyd gan Y Parch C.J. Prew, a'r ymgymwrwr oedd R. Hughes a'i Fab, Llangefni.

Casglwyd £800 tuag at Gronfa Alzheimer's a Ward Glasmor, Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi. **CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST.** Yn ystod mis Mehefin aeth y Gymdeithas i Eglwys Farmor Bodolwyddan. Cafwyd croeso gan y Parchedig a Mrs Gwilym Berw Hughes, cyn Ficer yma yn Llandinorwig. Tywyswyd ni oddi amgylch a chael hanes adeiladu'r Eglwys, a pha mor bwysig yw heddiw yng nghyswllt Ysbyty Glan Clwyd, sydd nid nepell i ffwrdd. Cyn troi am adref aethom i'r Tŷ Gwyn, yn Rhualt am luniaeth.

Mae rhaglen y tymor wedi ei pharatoi am eleni a chawsom, i agor ein cyfarfod cyntaf, Mr Rol Williams o'r Waunfawr. Rhoddodd sgwrs hynod ddiddorol am sefydlu siopau enwog 'Marks and Spencer'. Roedd ôl gwaith ymchwil ar y sgwrs, ac am lwyddiant o dlodi i'r cyfoeth presennol.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 7 Hydref pryd y croesawu y Parchedig Geraint Wyn Edwards a'r teulu o Gemais, Ynys Môn i Swper y Cynhaeaf.

Bydd Gosber a Phregeth y Diolchgarwch eleni am bump o'r gloch, 20 Hydref.



DIOLCH. Dymuna Eleri a Gareth, Bwthyn Isaf ddiolch o galon am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas. Cafwyd diwrnod i'w gofio. Diolch o galon.

Llanddeiniolen

(Parhad o dudalen 12)

Cytunwyd i gais Mr John Huw Evans, Rhiwlas i ddanfôn crynodeb o gyfarfodydd misol y Cyngor i Llais Ogwan.

Materion llwybrau

Penderfynwyd danfon yr adroddiadau canlynol i Gyngor Gwynedd:

angen cylch (gât mochyn) ger Castell, Rhiwlas; angen atgyweirio wal gerrig, Corlan y Bont, Deiniolen; llywbr Zig-Zag, Dinorwig wedi ei gau yn y gwaelod; dŵr ar wyneb llwybr Incleini/Hen Lôn, Deiniolen. Pont Charlie, Bethel.

Lluchiwyd darnau mawr o'i lwyfan i lawr gan fandaliaid. Mae Cyngor Gwynedd wedi cau'r llwybr, nes bod eu hadran adeiladwaith yn ei hatgyweirio.

Cynllunio

Derbyniwyd pymtheg cais cynllunio ers y Cyfarfod diwethaf, nid oedd yr un gwrthwynebiad.

Cyllid

Derbyniwyd adroddiad yr archwilydd mewnol, Mr John D. Roberts CPFA, a oedd yn datgan cyfrifon 2001/2002 yn gywir ac amlygwyd gwerth-fawrogiad o'i gynghorion ynglŷn â ffurf newydd yr adroddiad blynyddol.

Grŵp Cymunedol

Penderfynwyd cefnogi bwriadau'r Grŵp i wella'r amgylchedd. Y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yw:

llwybr Cae Corniog

mynedfa Ystâd Y Rhos, Bethel

lle troi yn ôl, Tai Arthur.

Bwriedir cronicle hanes yr ardal maes o law, gweler y cyhoeddiad uchod.

Llwybr y tu cefn i Rês Marian, Deiniolen. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wynebu'r llwybr yma ar gost y Sir.

Dyddiad cyfarfod nesa'r Grŵp fydd yr 17eg o Fedi.

Penderfynwyd llongyfarch y canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol, Tyddewi: Lyndsey Vaughan Parry am ennill Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn; Eirug Wyn ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen am yr ail dro ac Angharad Price enillydd y Fedal Ryddiaith.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - nos Fawrth yr 8ed o Hydref.



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

GŴYL FFAIR NANT. Hoffwn trwy gyfrwng yr Eco longyfarch 'genod y nant' am drefnu Gŵyl Ffair Nant. Dydd Sul, 15 Medi cafwyd cychwyn da i'r dathlu gyda Gŵyl Flodau yn yr hen eglwys hynafol. Gellid gweld fod pawb wedi mwynhau eu hunain yn paratoi. Y canlyniadau yn ardderchog a'r eglwys yn edrych yn hyfryd dros ben.

Gyda'r nos cafwyd Cymanfa Ganu dan arweiniad Gareth Jones. Canu bendigedig - bron codi'r to.

Syniad Gareth oedd y Gymanfa a'r Wyl Flodau ac rwy'n siwr ei fod wedi ei blesio yn fawr o weld ei freuddwyd wedi ei gwreiddu.

Dymunaf bob lwc i weddill y dathliadau a diolch Gareth am y syniad ac i'r genod am y trefniadau.

Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Cenedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

**PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG**

**CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU**

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Teyrnge

JOHN ROBERTS – BRYN MÊL. Yn ystod yr haf bu farw John Roberts, Bryn Mêl, Llanberis. Yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf y deuthum i adnabod John. Roedd Marion, ei briod, yn athrawes yn Ysgol Gynradd Y Gaerwen, Ynys Môn lle y derbynias fy mhrifathrawiaeth gyntaf.

Ymhyfrydai Marion yn y ffaith fod ei Phrifathro newydd yn hanu o'r un pentref â hi – Llanberis! Rwy'n cofio ei holi yn ystod yr wythnos gyntaf ai ar fws y deuai i'r ysgol o Langefni, lle y trigai ar y pryd. 'Bobol mawr naci,' oedd ei hateb, 'John sy'n fy nhywys.' A John fyddai yn ei thywys, a hynny yn brydlon a di-feth. Pan fyddai amser yn caniatâu byddwn yn mynd draw at y car am sgwrs. Byddai yn fy nghroesawu bob amser â gwên, a honno'n wên gynnes.

Monwysyn o'r iawn ryw oedd John. Hanai o'r fro hyfryd ddiwylliedig hono – Llanfihangel Tre'r-Beirdd – ardal y Morrisiaid a Goronwy Owen. Trydydd mab ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. John Roberts, Hen Siop, Capel Coch. Ffermdy oedd Hen Siop ac, er i John dreulio ei ddyddiau cynnar ar y fferm, nid aeth amaethu i'w waed. Ymhyfrydai yn ei fagwraeth ac yn ei gymdogaeth. Roedd yn ysgrifennydd y capel pan oedd ond dwy ar bymtheg oed a daeth dan ddylanwad ei weinidog ar y pryd, Y Parchedig Rees Owen, a hanai o Gwm y Glo. Treuliodd gyfnod yn y tyddin a chyfnod du yn ei hanes oedd hwn. Cafodd ei anfon i rai o wledydd y Dwyrain Pell lle y dioddefodd ei lechyd yn enbyd. Teuliodd gyfnod yn Ne Affrica, ac yma eto fe ddioddefodd anhwylder a berodd iddo fod yn orweddog am chwe wythnos.

Ar ôl cwblhau ei wasanaeth yn y Lluoedd Arfog dychwelodd i Fôn gan dderbyn swydd yn y Swyddfa Addysg yn Langefni. Daeth dan ddylanwad Emrys Roberts (mab Caerwyn). Ymhén amser symudodd i Adran Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau gan ddod yn bennaeth yr adran.

Roedd John yn ddarllen yn eang a brwdfrydig. Dotiai at ddawn y bardd a chofiaf Marion yn crybwyll mai 'Hon', T. H. Parry Williams oedd ei hoff gerdd.

Gwerthfawrogi gerddoriaeth, er nad oedd yn ganwr! Ond rhana'r ddau ohonom un diddordeb arall. Yn ddiethriad byddai ein sgwrs yn troi at bêl-

droed! Roedd yn gefnogwr brwd o Manchester United a mynych fyddai'r tynnu coes rhyngddom! Roedd yn hyddysg yn hanes y tîm – o gyfnod y *Busby Babes* hyd at Brooklyn a Romeo, yn ôl Marion! Cefnogwr go iawn.

Priododd John a Marion ar Ebrill 2il 1947, yr un dyddiad a phriodas y Dywysoges Elizabeth a Philip. Dipyn o sioc oedd i'r ddau dderbyn gwahoddiad i erddi Palas Buckingham i ddathlu'r achlysur. Digwyddodd John grybwyll wrth swyddog iddo wasanaethu dan larll Louis Mountbatten o Burma tra yn y Dwyrain Pell. Trosglwyddwyd y neges i Philip, Duc Caeredin a daeth yntau yn ei dro at John i gael mwy o'r hanes.

Bu John yn ŵr ac yn frind fyddlon i Marion. Bu'n warchodol ohoni ac, ar gyfnodau o afiechyd, bu'n gefn mawr iddi. Byddai'r ddau gyda'i gilydd bob amser yng ngweithgareddau Ysgol Y Gaerwen, boed hynny mewn cyngerdd, gwasanaeth carolau neu ffeiriau. Byddai gan John ei stondin ei hun yn y ffeiriau ac yn mwynhau sgwrsio â thrigolion y pentref. Roedd bob amser ar gael i gynorthwyo. Trysoraf fy atgofion ohono a diolchaf am y fraint o gael ei adnabod.

Hyderaf yn fawr y bydd i Marion dderbyn nerth i wynebu'r dyddiau blin ac y bydd ei hatgofion hithau o John yn fodd i liniaru mymryn ar finio'rwydd y golled.

Arwel Jones.

DYMUNA John H. Jones, Tan y Clogwyn ddatgan ei werthfawrogiad diffuantaf am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 oed. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Bett, 18 Snowdon Street, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y blodau, cardiau a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Alun Roberts, Ty'n Llwyn, 22 Goodman Street ddiolch i'w deulu, cymdogion, ffrindiau a chyd-weithwyr am y caredigrwydd a ddangowsyd tuag ato mewn llawer o ffyrdd pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar ac hefyd ar ôl iddo ddod adref.

HOFFAI Megan a Bert, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur.

DIOLCH, Dymuna Mrs Hilda Williams, Rhos y Faenol ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion

am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

CYNGERDD. Nos Sul, 8 Medi fe gafwyd cyngerdd arbennig o dda yn yr Eglwys yng nghwmni Tim Ward a'i ffrindiau. Yma hefyd y cawsom weld a chlywed Annette Bryn Parri ar ei gorau. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain a da o beth oedd gweld yr Eglwys bron yn llawn. Llauer o ddiolch i Tim am drefnu'r noson.

Nos Wener, 13 Medi roedd noson wedi ei threfnu gan bwyllgor merched y Côr. Arweiniwyd y noson gan Arwel Jones. Hefyd roedd raffl fawr yn cael ei thynnu. Diolchodd Arwel i'r merched am eu gwaith yn ystod y misoedd

diwethaf. Trwy eu hymdrechion trosglwyddwyd £800 i goffrau'r côr. Llauer o ddiolch iddynt.

Dyma enillwyr y raffl:

Wil Harries: £25; Mair Huws: £25 i'w wario yn J. Brown; Annie (Old Time): Tocyn teulu ar y trê'n bach; Myfyr Parry: Tocyn teulu ar y trê'n bach; Enid Jones: Cinio i ddau yn y Vic; Tomos, 9 Y Glyn, Caernarfon: Potel o rum; Iwan, Foelas, Cwm-y-glo: Potel o whisgi; Dilys Mai: Cinio i 2 yn y Bistro; Gwyneth: Paentiad Olew o Oriel Cwm; (01492) 622676: Paentiad olew gan Myfyr Parry; Martin, D.F.M., Bangor: Dol; Dorothy: Tocyn £10 i'r Amgueddfa Lechi; John Cig: Tocyn teulu Trê'n y Wyddfa; Ted Morris: Potel o Cider; Melfyn, Cig Arfon: Cwpanau.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. I ddechrau tymor y gaeaf, cyfarfu'r gangen nos Lun, 3 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Gabriel gan ein rheithor, y Parchedig Philip Hughes. Darllenwyd y colectau a'r efengyl gan y Parch Vittoria Hancock.

Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfarfod yn yr Ysgol Gymuned a chroesawyd dwy aelod newydd i'r gangen. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Sandra Hughes a Mrs Menna Roberts. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor diwethaf a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd materion oedd wedi dod i law yn ystod y gwyliu gan Mrs Margaret Latham.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt. Rhoddwyd y raffl hefyd ganddynt ac fe'i hanillwyd gan Miss Meira Williams. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Marjhorie Roberts.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

LLONGYFARCHIADAU i Mam a Nain, sef Mrs Rhian Jones, Bron Eryri ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oddi wrth Islwyn a Beryl, Medi a Gareth, Karl, Craig, Chelsey, Ceri, Dewi a John.

CAPEL Y TABERNACL. Trefn yr oedfaon am fis Hydref i gychwyn am 4 o'r gloch fydd:

6 Parch Gwynfor Williams

13 Barch Vittoria Hancock

20 Mr John McBryde

27 I'w drefnu.

Pnawn dydd Iau, 17 Hydref

cynhelir Gwasanaeth Diolch-garwch Plant Ysgol Cwm-y-glo.

YR YSGOL. Ar ddechrau blwyddyn ysgol fel hyn, mae'n braf cael croesawu athrawes newydd i'r ysgol. Erbyn hyn mae Mrs Nia Oliver o Frynrefail wedi ymgartrefu'n hapus iawn gyda phlant Blwyddyn 1 a 2.

Mae'r plant bach newydd yn y Dosbarth Meithrin hefyd wedi setlo'n hapus gyda Mrs Gwenifer Roberts a Miss Wendy Smith. Maent wrth eu bodd gyda'r holl deganau mawr newydd a brynwyd ar eu cyfer gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Diolch o galon iddynt am eu haelioni.

Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant ein cyn-ddisgyblion yn eu arholiadau yn ystod yr haf ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt eto yn y dyfodol.

Dyma'r cyfle cyntaf i ni fel ysgol gael llongyfarch lola a Michael Roberts ar enedigaeth eu merch fach, Ffion Erin. Mae Sion Mathew yn meddwl y byd o'i chwaer fach newydd.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Gorffennaf oedd:

1. Mrs Margaret Williams, Goleufryn, Cwm-y-glo; 2. Rebecca Wilson, 2 Glan y Gors, Dinorwig; 3. Mrs Sian Jones, 2 Dolafon, Cwm-y-glo.

Enillwyr mis Awst oedd:

1. Hannah Wilson, 2 Glan y Gors, Dinorwig; 2. Liz Hughes, Dolafon, Cwm-y-glo; 3. Mrs Hilda Orritt, Morannedd, Cwm-y-glo.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)

CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

TYMOR YR HYDREF. A thymor yr hydref wedi cyrraedd, ias oer fore a nos a'r dydd yn byrhau, tybed ple'r aeth yr haf. Y plant wedi mynd yn ôl i'r ysgol. Dymunaf yn dda i'r rhai bach sydd wedi dechrau yno ac i'r rhai sydd wedi gorffen yno ac yn barod i ddechrau mewn coleg neu mewn galwadau eraill. Ga' i ddymuno'n dda i bob un ohonoch.

Yr Eisteddfod yn edrych yn bell yn ôl ond dim mor bell na allaf longyfarch Eirug Wyn ar ennill y Fedal Ryddiaith unwaith eto, a dymuno y bydd iddo gael gwell iechyd i'r dyfodol.

Hefyd mae'n siwr fod llawer o'r ardal wedi colli enw un arall o'r Eisteddfod, sef Bethan Bryn. Mae Bethan wedi bod yn yr ysbyty yn Aberystwyth yn bur wael, ond erbyn hyn wedi cael mynd adref. Bethan ac Eirug, ar ran pentref Dinorwig, ga' i ddymuno gwellhad i chwi eich dau. Brysiwch wella.

PLYGU'R ECO. Carwn ddiolch o galon i'r ffyddloniaid a ddaeth ynghyd i blygu'r Eco. Er mai plygu'r Eco oeddym yn ei wneud mae'n rhaid dweud ein bod wedi cael ein difyrru gan Andrew ac Evan. Yr oedd yn noson hwyliog iawn. Diolch i Jean ac Alison hefyd. Hwytiau yn ymuno yn yr hwyl. Diolch yn fawr i bawb.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod diweddar o'r clwb, dymunwyd gwellhad buan i Sally Brennan wedi iddi dderbyn llawdriniaeth i'w llygaid, a dymuniadau da i Eve Braithwaite ac Andrew Griffith a fu'n dathlu eu penblwyddi yn ddiweddar.

Diolchwyd i Robin Jones o Age Concern am drefnu i'r aelodau gael ymweld â Gwesty Meifod, Bontnewydd i gyngerdd gan Kintamarni, sef pedair merch yn chwarae saxophone, ac am y te a ddarparwyd ar gyfer Pobl Hŷn a ariannir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Derbyniwyd llythyr a thystysgrif oddi wrth Cronfa Macmillan i ddiolch i'r aelodau am eu llwyddiant yn codi arian i'r elusen. Bydd y Clwb yn dathlu ei ail ben-blwydd ym mis Hydref, a

gwnaed trefniadau ar gyfer yr achlysur.

Dosbarthwyd blychau casglu ar ran Age Concern i'r aelodau a fydd yn casglu o dŷ i dŷ cyn bo hir. Diolchwyd i Alice Griffith a Megan Morris am ddarparu'r te. Enillwyd y raffl oedd Elizabeth A. Jones a Betty Bower.

BEDYDDIO. Ar nos Sul, 28 Gorffennaf, bedyddiwyd tri o'r ardal gan y Parch John Pritchard yng nghapel Cefn y Waun, sef Mrs Eira Morris, Tŷ Capel MC a'i dau blentyn, Gwenno a Sion Ifan. Dymuniad Eira oedd cael ei bedyddio hefo'r plant. Achlysur braf iawn yn yr oes yr ydym yn byw ynddi. Mae Gwenno yn barod yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul.

YSGOL SUL. Tybed faint o bentrefi ym Mro'r Eco a gynhaliodd yr ysgol Sul yn ystod gwyliau'r haf eleni. Yr ydym ni yma yn Ninorwig yn ymfalchïo yn y ffaith fod yr ysgol Sul wedi cael ei chynnal yng nghartref Mrs Katie Lloyd Hughes. Rwyf yn siwr fod ein diolch yn fawr iddi. Er bod y capel wedi cau ers dros ddwy flynedd mae'r ysgol Sul yn dal i fynd ac yn llewyrchus iawn. Dymuniad y plant oedd cael yr ysgol Sul drwy'r haf, a Mrs Hughes yn ymateb i'w dymuniad.

Mrs Hughes, gobeithio y cewch nerth ac iechyd i gario ymlaen hefo'r gwaith ardderchog yr ydych yn ei wneud hefo'r plant ac y gallaf finnu roi maddeuant i chwi am fy nghadw i ddisgwyl i fynd i'r oedfa ambell nos Sul. Diolch yn fawr iawn i chwi.

YMUDO. Ein dymuniad gorau i Betty Roberts, gynt o 7 Maes Eilian sydd wedi symud o'r ardal i fyw. Mae Betty wedi mynd i fyw i fynglo yn Rhydfadog. Gobeithio eich bod yn setlo i lawr yno ac y byddwch yn hapus ac y cewch iechyd i fwynhau blynyddoedd ynddo.

GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Mr a Mrs Geraint Morris, Tŷ Capel MC ar enediageth mab, brawd i Gwenno a Sion Ifan. Gobeithio y cewch nerth ac iechyd i'w fagu. Enw'r bychan yw Elis Arddu Morris.

Yn yr Ardd



Llun cynhaeaf gwair Tyddyn Rhuddallt, Llanrug yn y dau ddegau.

Sut hwyl sydd wedi bod yn yr ardd? Dyma amser y cynhaeaf, mwynhau ffrwyth eich llafur. Byddai'r ffermwyr yn casglu'r cyfan i'w hysguboriau dros y gaeaf, felly dylai'r garddwyr wneud, ond nid i'r ysgubor ond i'r rhewgist. Diolch am bethan modern

Trwy garedigrwydd ffrind fe heliwyd y cwsberis (eirin Mair) ac y maent yn flasus mewn cacen. Byddwn yn sôn wrth drafad v tywydd 'Dolig yn yr haf, a chwsberis yn y gaeaf' Mae'n llythrennol wir i mi erbyn hyn!

Fala, fala, filoedd yn cael eu chwythu Pgan y gwnt a'r adar yn cael gwledd a rhai ohonynt yn rhoi cân fach amdanynt. Mae rhai o'r enw 'Beanty of Bath' yn afalau Awst ac wedi eu bwyta. Am enw Aristocrataidd ar Afal! Mae afalau diweddar yn cadw'n dda mewn ystafell oer hyd yn oed at fis Mawrth, ond os oes clais arnynt - i'r rhewgist â nhw

wedi eu stiwiio yn barod i wneud teisen afal ddiwrnod Dolig neu afal efo'r porc tua'r Dolig.

Rhaid dod yn ôl i'r pridd rwan, a gelynion y garddwr, ie y chwyn sydd yn poeni pawb. Does dim fwy crwydrol na nhw. Gallant achosi drwgdeimlad rhwng pobol drws nesaf sydd yn poeni amdanynt. Rhowch ddigon o chwyn laddwr, mae'n ffordd ysgafn o'n difa, ond i fynd i lawr i'r gwraidd does dim fel fforch dda ac i fyny â nhw ac i'r domen. Ond mae chwyn hyd yn oed yn flodau gwyllt. Mae'r hen estron gwyllt o ddant y llew yn flodeuyn bach digon del a gwn am un a dorrodd rai ohonynt a'u rhoi mewn llestr ar ffenact y gegin ond ddim yn y parlwr. Dyna i chi'r 'ysgaw'r ddear' sydd yn elyn mawr i'r garddwr, rhaw gref i godi hwn a chrafanc y frân - gelynion i gyd. Mynnwch eu codi cyn y gaeaf a'u llosgi. Hwyl

GWRAIG Y TY



CARPEDI GERAIN T OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

**Peidiwch a gori ar stori
anfonwch hi i'r Eco**

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau
nwyddau trydanol,
yn arbennig pop tai, oergelloedd,
pciriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n
addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org



DAWES

TREK

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr
Llanberis

Beics a Barcudau

Partiau a Thrawsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,

BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon
a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne

Ozone



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
Iau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar
agor tan 6 pm

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

DIWEDD CYFNOD. Daeth cyfnod yn hanes amaethyddiaeth y fro i ben dros Wyl Banc mis Awst gyda chwalfa adeiladau metal yn fferm Cefn y Gof.

GENEDIGAETHAU. Yn hwyr ym mis Awst daeth trigolion newydd i'r pentref, diolch i ofal staff Ysbyty Gwynedd. Un yw Ceris, merch arall i Jayne a Tim Lloyd, Bodawel. Yr ail yw Cara, merch i Lynda a Mark, Tŷ Newydd. Croeso cynnes i chwi eich dwy.

RHODDION. Diolch i hap-chwaraewyr Pêl Bonws y Loteri Cenedlaethol yn Nhafarn Bryngwna am eu rhodd o £420 tuag at gostau'r Ganolfan. Hefyd diolch i'r cwpwl a roddasant rodd hael o £100 i'r Ganolfan.

04 WAL. Roedd yn ddiddorol gweld Castellmai ar ei newydd wedd trwy law'r perchennog newydd, Sioned Emrys. Roedd y gymhariaeth hefo'i fflat yn Delhi, India hefyd yn ddiddorol iawn.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Sharon ac Ian, Tai Glangwna ar eu priodas yn ddiweddar yn Rhuthun ar ôl dychwelyd o'u mis mēl yn Tererife.

PRIODAS AUR. Llongyfarchion i Mai ac Idris Jones, Rhosbach ar eu Priodas Aur. Bu sbei yn y dathliadau yn Y Mownt.

DEFAID. Y bore ar ôl y noson cynt aeth Willie Anderson o Dafarn Bryngwna i'r cae chwarae. Beth welodd ar y rowndabwrt ond

defaid - un ddu ac un wen. Gormod o'r 'hen iâr brith'?

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Medi oedd: £40: (09) R. Chambers Jones, Hafod Wen; £25: (59) J.L. Morley, 8 Erw Wen; £15: (16) Olivia Roberts, Cartref; £3: (13) Peter a Vera Hughes, Pennant. CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Festri Croes y Waun ar 17 Medi 2002. Bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn map yn dangos lleoliadau ar hyd yr A4085 ar gyfer 'rumple strips' a tri twmpath arafu traffig ar hyd y lôn. Roedd cryn feirniadu ar Gyngor Gwynedd ynglŷn â diffyg gweithrediad ynglŷn a'r arwydd 'dim chwarae pêl'; torri'r gordyfiant i'r garejis ac arwydd enw Stad 'Bryn y Gof'. Ni fu chwaith unrhyw symudiad i dorri'r gordyfiant dros y pafin cul ar y ddwy ochr tuag at y siop.

Wrth drafod y cynigion ar gyfer Caeathro yn y drafft Cynllun Datblygu Unedol cytunwyd fod angen mwy o dir ar gyfer plotiau unigol yng ngardd Cefn y Gof, safle parclo ger y man chwarae ac amddiffyn y ddau gae chwarae ar gyfer y dyfodol.

SGIP CYMUNEDOL. Bydd y sgipiau blynyddol yng Nghaeathro yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref.

GRANTIAU ARIANNOL. Dylid cyfeirio caisiadau am arian o Gyngor Gymuned y Waunfawr i'r Clerc, Sian Thomas, Tŷ Ysgoldy, Y Waunfawr, erbyn canol mis Hydref.

*I May ac Idris
ar eu Priodas Aur: 06.09.02*

Yng Nghaeathro, mawr yw'r miri, Priodas Aur yn nechrau Medi. Llu o g ardau ac anrhegion, Pawb yn anfon llon gyfarchion. Byw yn unol faith flynyddoedd, Carreg filltir wedi cyrraedd, Cwmni'r plant a'r wyrion hawddgar, Teulu hynod ddiymhongar, Boed blynyddoedd o hapusrwydd Eto, yn eich cartref dedwydd.

*E. Williams
Yr Hendre, Caernarfon*

I'R COLEG. Dymuniadau gorau i Geraint Roberts, Cefn Rhos Isaf ar gychwyn ei yrfa yn y coleg. Mae Geraint yn mynd i Brifysgol Nottingham am bedair blynedd i wneud Peirianneg Sifil.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Gwenno a Brian ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac arian ar enedigaeth Iestyn Rees. Hoffai Nain Sulwen a Nia ddiolch am y caredigrwydd gan bawb. Hefyd Evan a Nerys.

LLONGYFARCHIADAU i Geraint ac Ann Elis, Cilgeran ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Sion, mab bychan i Angharad ac Anthony yn Ysbyty Gwynedd ar 4 Medi.

MERCHED Y WAWR. Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd gan y Llywydd, Beti Owen. Cydymdeimlodd y llywydd â'r rhai oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar; anfonwyd cofion at y rhai oedd ddim yn dda eu hiechyd a da oedd deall fod Anita Owen a Gwyneth Jones wedi gwella ar ôl anafu eu coesau yn ystod gwylliau'r haf.

Llongyfarchwyd tair o'r aelodau: Ann Elis, Mary Evans a Gwyneth Jones ar enedigaeth plant bach i'w merched, Manon, Angharad, Catrin a Gwen.

Llongyfarchwyd pobl ifanc yr ardal ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Huw Jones a Sioned Owen, y ddau yn ennill gwobr am ganu unawd, Dewi Griffiths, un o Ffanfferwyr yr Orsedd, ac wrth gwrs Angharad Price, un o blant Bethel, ar ennill y Fedal Rhyddiaith.

Dymunwyd yn dda i'r dyfodol i bawb oedd wedi llwyddo mewn arholiadau Ysgol a Choleg. Llongyfarchwyd Eryl a Dilwyn Roberts a Mair a William Jones, y naill wedi dathlu Priodas Arian a'r llall Priodas Aur yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Dyfan, mab Ann Elis, sydd yn mynd i Awstralia am flwyddyn.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Jenny Pye yn diolch am y siec tuag at Ysgolion ac Ysbytai Lesotho, a chyhoeddwyd fod Pwyllog Anabl y Rhanbarth wedi cyflwyno siec o £2,200 i Ysbyty Minffordd i brynu offer ar gyfer cleifion sy'n dioddef o'r Clefyd Alzheimer.

Gwesteion y noson oedd y tair chwaer o Gaernarfon: Malan, Manon a Medi, ynghyd â'u mam, Siân Wilkinson. Cafwyd noson arbennig gyda'r tair yn perfformio'n broffesiynol iawn eitemau ar lafar, ar gân ac yn offerynnol, gyda Siân yn cyflwyno yn hwyliog a chartrefol. Rhyfeddwyd at eu dawn, a mwynhawyd y noson yn fawr iawn gan bawb. Diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Rita Williams.

Y pwyllog oedd yn gyfifol am y lluniaeth ar ddiwedd y cyfarfod ac Anne Lewis enillodd y raffl. Dr Berwyn Owen fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf.

CLWB BRO BETHEL

Daeth tymor y Clwb i ben fis Gorffennaf gyda thrip i Tweedsmill a Rhuthun ac ymlaen i Wrecsam am ginio. Diolchodd Mr Goronwy Jones i'r ysgrifenyddes a'r trysorydd am dymor llwyddiannus. Medi 3

I agor y tymor bu'r aelodau yn mwynhau cinio arbennig yn y Bedol. Rhodd gan Mr a Mrs Johnson a Michelle. Diolchwyd iddynt am eu caredigrwydd gan Mr Siencyn Griffiths.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs James ar ddathlu eu Priodas Aur ym mis Awst. Diolchwyd iddynt am eu rhodd gan y Parch Gwynfor Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ym Methel ar 1 Hydref. Y gŵr gwadd fydd y Parch R. E. Hughes.

CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED. Enillwyr mis Awst oedd Sheryl Hughes (HSBC) Bangor: £100; Gavin Roberts, Bethel: £50; Dafydd Williams, Bethel: £25; Terry (Cwm) Williams, Bethel: £25. I ymuno neu am ragor o wybodaeth cysyllter â Mr Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel. Ffôn (01248) 671469.

EISTEDDFOD BETHEL. Dyma'r Llinell Goll ar gyfer yr Eisteddfod Bentrref eleni. Anfonwch eich cynigion, dan ffugenw, i'r ysgrifenyddes, Manon Gwynedd, Llys Myfyr, Bethel erbyn dydd Gwener, 25 Hydref, ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen wedi ei selio, os gwelwch yn dda. NEWYDDION O'R YSGOL. Mae tymor yr hydref wedi dechrau bellach a phlant meithrin wedi hen ymgartrefu yn y caban.

Llongyfarchiadau i Mrs Mari Williams, athrawes Bl. 1 a 2 ar ei phenodi'n bennaeth yr adran babanod.

Bu Blwyddyn 6 yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn am dair noson hefo Mr Dylan Parry a Miss Nia Gwawr Jones yn edrych ar eu holau. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn er ychydig yn flinedig yn cyrraedd yn ôl. Bu swyddog o'r Gwasanaeth Tân yn siarad â rhai o'r plant am beryglon tân a'u hatgoffa am ffyrdd i gadw'n ddiogel.

YMDDEOLIAD. Ym mis Mehefin eleni ymddeolodd (yn gynnar) Ceinwen Williams, Cefn Gwyn, o'i swydd fel Swyddog Mewn Gofal yng Nghanolfan Dydd Plas y Coed. Cynhaliwyd parti ymadael iddi ac anfonwyd y llun yma i'r Eco gan un o'i chyd-weithwyr i nodi eu diolch iddi ar ran ei chyd-weithwyr a'r rhai sy'n mynychu'r Ganolfan am bob caredigrwydd yn ystod ei chyfnod ym Mhlas y Coed ac i ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF
WAUNFAWR
Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Cenedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

STEPHEN JONES

✚ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMBOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED.

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Einir Humphreys (neé Griffith) ar ei phriodas â Mr Edwin Humphreys dros wyliâu'r haf. Cafodd Einir, Edwin a Ceiri ddiwrnod i'w gofio ac maent yn wir ddiolchgar i'r holl blant, athrawon, rhieni a chyfeillion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da.

Yn yr un modd, dymuna Mrs Jên Morris a'i gw'r, Richard, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas hwythau ym mis Mai.

Croeswawyd 9 o ddisgyblion newydd i'r Dosbarth Meithrin ac maent wedi ymgartrefu'n sydyn iawn yng ngofal Miss Bethan Roberts.

Y mae'r flwyddyn 2002 yn flwyddyn arbennig i'r Ysgol Gymuned gan ei bod yn dathlu ei deng mlwyddiant ers ei hagor yn 1992. Bydd Cyngerdd i ddathlu'r degawd ar 16 Hydref a bwriedir dathlu ymhellach dros gyfnod y Nadolig. Pen-blwydd Hapus felly i'r Ysgol Gymuned hardd yma.

Yn ystod y flwyddyn bydd myfyrwyr o Goleg Menai a Hyfforddiant Gwynedd yn ymuno â'r staff. Ar hyn o bryd croesewir Mari Harding, Rhian Jones a Collette Williams gyda Chyfnod Allweddol Un.

Y mae pawb bellach wedi hen setlo i lawr ac wedi bwrw iddi hefo'u themâu Lliw a Llun, Y Fferm a'r Rhufeiniad.

URDD ADRAN BENTREF. Bydd yr Adran yn ailgychwyn wedi'r hanner tymor. Bydd manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod ar Sadwrn, 16 Tachwedd am 1 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Mynediad drwy raglen: 50c. Bydd egwyl a lluniaeth ganol y pŵn. Am fwy o fanylion, rhaglenni a thestunau cysylltwch ag Elizabeth Woodcock ar 870121.

GWELLHAD. Gobeithio fod y tywydd braf wedi codi calon pob un ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Ein cofion a'n dymuniadau gorau i chwi oll.

Da deall fod Mrs Jennie Williams, Cae Corniog adref o'r ysbyty. Ein cofion gorau atoch chwithau.

YSGOL SUL BOSRA. Roedd yn hyfryd croesawu'r plant yn ôl wedi gwyliau'r haf. Daeth un ifanc iawn

i'n plith, sef Jordan, ac mae wedi setlo'n sydyn ac yn ymuno yn y gweithgareddau.

Thema'r Ysgol Sul y tymor hwn yw 'Coed' a byddwn yn hynod falch o unrhyw gyfraniadau, boed yn llyfrau neu luniau.

Cynhelir Sul y Teulu bawn Sul, 20 Hydref yn ngofal Mr Merfyn Jones, Caernarfon.

Gweinyddir y Cymun Bendigaid a bydd hyn yn gyfle amhrisiadwy i'r plant gael gweld a chymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig hwn. Croeso cynnes i chwi rieni a ffrindiau ymuno â'r aelodau a'r plant.

Bwriedir cynnal gweithgaredd 'Darllen Noddedig' ym mis Tachwedd er budd Addysg Katalau, y ferch fach groenddu o Kenya a fabwysiedir gan Gylch Deiniolen. Byddwn yn ymuno ag Ysgol Sul Undebol Ebeneser, yn Festri Capel Ebeneser am 10.00 y bore. Felly byddwn yn dra diolchgar unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth, anogaeth a'ch haelioni.

DIOLCH O GALON.

Llongyfarchiadau i Jean Jones, Bryntirion, neu Anti Jean i holl blant y pentref, ar gael ei henwebu gan Mrs Ellen Jones, Deiniolen i dderbyn tlws hyfryd rhaglen S4C 'Diolch o Galon'. Un sy'n gwirioni â phlant yw Anti Jean. Hi yw Anti Lolipop yr Ysgol, hi sy'n gwarchod llu o blant cyn, ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae hi a Wil, ei gw'r a Haydn wedi agor drws eu cartref ers pedair blynedd, ac wedi mabwysiadu 20 a gwarchod o gwmpas 120 o blant.

Cyflwynwyd y tlws hardd, sef powlen risial, gan Mrs Elen Jones. Canwyd cân hynod o addas, un oedd yn darlunio cymariad gofalus Jean i'r dim, gan Gwenda Owen. Ein cyfarchion cynhesaf i ti, Jean. PRIODAS. Pob dymuniad da i Emyr a Katy ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Y maent wedi cartrefu yng Nghaernarfon. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Mathew Philips, Tai Arthur, ar ennill Tystysgrif Theori Gradd 5 gyda Bwrdd Cyswilt yr Ysgolion Cerdd Brenhinol. Da iawn chdi.

PWYLLGOR NEUADD. Yn ystod mis Gorffennaf trefnwyd Taith Gerdded Lôn Las, Dyffryn Peris yng ngofal Leslie Larsen. Taith yw hon ar ran o'r hen lein L.M.S.R., o

Lanberis i Gaernarfon. Tynnwyd sylw'r oedolion a'r plant at y Garreg Goffa i dri o bobl ifanc, aelodau o'r A.T.C. Boddwyd y tri mewn damwain hofrennydd bron i naw mlynedd yn ôl.

Aethpwyd heibio'r llecynnau ble mae plant a phobl yn cael eu hyfforddi ar sut i drin canŵ. Yr oedd y blodau tlws, lili'r dŵr, yn union fel cwpanau a soseri ar wyneb y llyn llongydd. Rhyfeddodd pawb at furiau'r twnnel lle roedd olion driliau'r gweithwyr gynt. Gallai Leslie Larsen enwi'r holl fathau o goed, a gwelwyd oddeutu 20 math. Difyr oedd yr ofergoel am y griafolen, ac fel y byddai'r hen Gymry yn ei thyfu wrth y tŷ i gadw'r ysbrydion drwg draw ac yr oedd rhai yn peintio'r tai hefo'r aerion coch. Oes, mae gan Leslie griafolen yng ngardd Llygad yr Haul, ac mae hi wedi cadw ysbrydion drwg draw - medda fo! Yn sicr roedd y plant wrth eu boddau hefo'r daith ddifyr a theimlai'r oedolion hwythau mai mwy o deithiau fel hyn y dylid eu trefnu. Diolchir i Leslie am y taflenni difyr ac am y daith addysgiadol a thu hwnt o fendithiol.

Bwriedir cynnal 'Noson o Hwyl a Sbri Calangaeaf', nos lau, 31 Hydref. Bydd amrywiol gystadlaethau i boboedran. Bydd

posteri a thaflenni i'r plant yn nodi'r holl gystadlaethau.

Rydym yn ymhyfrydu yn negawd y Neuadd Gymuned. Y mae cymaint o weithgareddau wedi'u cynnal ynddi ac mae defnydd helaeth ohoni o hyd. Rydym, fel pentrefwyr, yn hynod falch fod yr Ysgol Gymuned yn edrych yr un mor llewyrchus heddiw ac yr oedd pan agorwyd hi Hydref 1992. Perchir hi yn ganmoladwy gan bawb sy'n ei defnyddio, gyda'r nos yn ogystal â'r dydd. Y mae'r plant yn mwynhau y cae pêl-droed a'r buarth wedi oriau'r ysgol ac maent yn amlwg yn parchu eu hysgol. Gobeithio y bydd yn dal i edrych yr un mor ddeniadol wedi'r ddegawd nesaf. Pen-blwydd Hapus i'r Ysgol a'r Neuadd Gymuned.

Enillwyr y Clwb Cant Gorffennaf:

1. Mr Ken Williams, Trem Cynfi; 2. Siôn Dafydd, Tai Arthur; 3. Mathew Philips, Tai Arthur.

Awst: 1. Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr; 2. Delyth Williams, Pen y Gaer; 3. E. J. Williams, 2 Bryntirion.

Medi: 1. Ann Jones, Ty'n Gerddi; 2. Sharon Davies, Pant Afon; 3. Gwyneth Owen, Minffordd.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor longyfarch Mrs Einir Humphreys ar achlysur ei phriodas yn ystod gwyliau'r haf. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr

gan y bobl **BROFFESIYNOL**

Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**

Y Gwasanaeth Technegol Gorau

i'ch **CAR**. Cystal â

Gwasanaeth Prif Ddeliwr

Felly, pa gar bynnag ydych

CHWI yn ei yrru,

o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac

ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddweh mewn etail - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill



Silver STAR

GWYLIAU SEREN ARIAN

• PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.

• TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.

• TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I CRWPIAU A

MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.

• BWSIAU MODERN A MOETHUS

• GWESTAI O SAFON

• CWMNI TEULUOL

• MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein telthlau, ffoniwch

ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DATHLU PENBLWYDD

Llongyfarchiadau i Arthur Jones, 5 Trem Eilian a ddathlodd ei ben-blwydd yn 60 oed ar 25 Awst. Dymuna ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau dderbyniodd ar yr achlysur.

PWYLLGOR CYMUNEDOL

Cyfarfu'r pwyllgor nos Fawrth, 16 Gorffennaf. Llywyddwyd gan Mr Gwyn Hefin Jones. Pasiwyd i wahodd rhai a roddodd eu henwau ymlaen yn yr Holiadur i gynorthwyo mewn gwaith pwyllgor i ffurfio is-bwyllgorau a hefyd gofynnwyd am ateb cadarnhaol o du rhai o aelodau gwreiddiol y Pwyllgor Llywio a fwriadent barhau yn rhan o'r pwyllgor newydd. Cafwyd trafodaeth ar ffurfio cynllun busnes a nifer o sianelau i ariannu'r cynllun arfaethedig. Fel man cychwyn, penodwyd is-bwyllgor i lunio'r Cyfansoddiad gyda Mr Llew Roberts, Swyddog datblygu Canolfan Gydweithredol Cymru i gynorthwyo yn y gwaith ac is-bwyllgor Tendro i baratoi ar gyfer Cynllun Busnes. Nos Fawrth, 10 Medi croesawyd i'r cyfarfod aelodau o'r is-bwyllgorau a rhai a gytunodd yn yr Holiadur i gynorthwyo mewn gwaith pwyllgor yn gyffredinol - Mri J. McBryde, Wil Williams, Dennis J. Roberts ac Islwyn Jones. Cafwyd adroddiad gan Dafydd Ellis ar waith yr is-bwyllgor Cyfansoddiad a gan Eurwyn Griffith ar ran yr is-bwyllgor Tendro.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am y gwaith trylwyr yn y ddau faes ac amlinellwyd y sefyllfa o du'r Eglwys Bresbyteraidd yn dilyn cyfarfod o'r Henaduriaeth a fu'n gwrando Hanes yr Achos ym Mrynrefail ar 23 Gorffennaf gan Gwyn Hefin Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cyfarfu'r aelodau i'w cyfarfod fis Gorffennaf yng nghartref y Llywydd, Mrs Pat Jones, Cae Coch. Roedd wedi paratoi barbeciw a fwynhawyd yn fawr gan yr aelodau a nifer o ffrindiau a ddaeth i flasur'wledd. Cymerodd y gangen ran hefyd ddiwedd y mis mewn ymgyrch i godi arian i Ffederasiwn Sefydliad y Merched a gynhaliwyd ym Meithrinfa Seiont. Profodd gwerthiant y lemoned cartref a baratowyd gan y llywydd y llywyddiannus iawn.

Mwynhaodd yr aelodau eu trip Dirgel Blyneddol nos Lun, Medi 19eg pan ymwelwyd â Chanolfan Bowlio Dag yn Llandudno a chael lluniaueth flasus i ddilyn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 22 Hydref yn Yegol Gymunedol Cwm-y-glo.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS: Nos Iau 12, Medi agorwyd y cyfarfod â myfyrdod dan arweiniad Mrs Ifanwy Jones, Rhandir. Y Cadeirydd am y noson oedd Gareth Llwyd Dafydd, Creigle. Ef roddodd groeso i'r gŵr gwadd sef Mr Richard Jones, Caeathro a chafwyd noson llawn hwyl ar ffurf cwis yn astudio pymtheg ar hugain o sleidiau o'i eiddo o fannau neilltuol yn nhref Caernarfon ddylai fod yn gyfarwydd i bob un oedd yn bresennol. Lowri Roberts Williams lwyddodd i gael y nifer fwyaf yn gywir a Norman Williams oedd y lleiaf cyfarwydd â'r manau a ddangoswyd! Paratowyd y lluniaueth gan Carol Houston ac Euronwy Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf a'r olaf am y tymor nos Iau, 10 Hydref. Y Cadeirydd fydd Gwyn Hefin Jones a'r gŵr gwadd fydd Mr Aled Jones Griffith, Carmel.

OEDFA BEDYDD. Fore Sul, 15 Medi, gyda'r Parch Reuben Roberts, Bontnewydd yn gwasanaethu bedyddiwyd Huw Gwynn, mab bychan Geraint ac Einir Gwyn, Gwel Elidir, brawd Ifan Gwynn ac ŵr Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir. Roedd nifer helaeth o'r teulu yn bresennol a chafwyd oedfa fendithiol.

TREFN OEDFAON HYDREF

- 6 Mr Norman Gloss Parry, Treffynnon am 10
- 13 Parch John Owen, Bethesda am 5.30 - Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 20 Oedfa Ddiolchgarweh - dan arweiniad yr ieuenctid ac aelodau'r Eglwys am 2 a'r Parch Trefor Jones, Caernarfon am 5.30
- 27 Dr Tudor Ellis, Y Groeslon am 10.

DRAENOG

Mynd wnaeth uN mewn jîns i
Flacna',
Er mwyn arbed ei siwt ora',
Wedyn newid yn ofalus
Cyn priodas yn yr Eglwys.

Ond i deithio 'nôl yn hwylus,
Rhaid oedd gwisgo top a throwsus,
Nid oedd lle i fod yn barchus,
Roedd y car mewn maes cyhoeddus.

Rhywsut rhwng y sgert a'r trowsus
Caed golygfa dra gynhyrfus,
Ni welwyd synt yn hancs Blacna'
Yng ngolau dydd, fath bâr o goesa'.

Un funud fach

TRWSIO PLAT

Mae'r plât glas 'nôl yn ei le erbyn hyn.

Cael y plât yn anrheg wnaethon ni wrth symud o Abersoch bedair blynedd ar ddeg yn ôl. Dwy neu dair llinell o lun clogwyn a thon a gwylan sydd arno ynghyd â'r geiriau 'Po fwyaf y trai, mwyaf y llanw'. Mae gennym feddwl o'r plât am mai anrheg oedd o ac am ein bod yn gwybod iddo gael ei roi i ni oherwydd neges y geiriau hynny.

Ond yn ddamweiniol, rai misoedd yn ôl erbyn hyn, mi dorwyd y plât yn ddau. Ers hynny bu'r ddau ddarn yn gorwedd yn drist yr olwg mewn drôr. Meddyliais fwy nag unwaith am eu tafu, ond 'nôl i'w lle yr aent bob tro rhag ofn y gellid eu trwsio. Ond lwyddais i ddim i wneud hynny nes i mi gael gafael ar diwb o *Superglue* yn ddiweddar. Bu bron i'r *Superglue* gael gafael arnaf fi a bûm wrthi am chwarter awr yn golchi 'nwylo wedi defnyddio'r stff! Ond mi weithiodd, ac mae'r ddau ddarn yn un plât drachefn ac wedi cymryd ei le o'r newydd ar sillf y ddresel.

Geiriau o obaith yw geiriau'r plât. Po fwyaf y trai, mwyaf y

llanw. Mae'r un roddodd y plât i ni yn ddigon cyfarwydd â glannau môr Pen Llŷn, ac yn deall bod hynny'n wir ym myd natur. Mae hefyd yn llawn gobaith y try'r llanw ysbrydol unwaith eto yng Nghymru o blaid yr Efengyl a gogoniant Iesu Grist. Eisiau gweld y llanw'n troi oedd hi pan roddodd y plât i ni, ac eisiau i ninnau gael cysur o gofio y daw llanw mawr i ddilyn trai mawr.

Mae'r blynyddoedd wedi hedfan, a ninnau'n dal i aros am y llanw. Mae'r trai dipyn mwy erbyn hyn, ac anghrediniaeth a drygioni yn cael mwy a mwy o afael yn ein plith. A'r hyn sy'n gwneud y peth yn waeth rywsut yw bod y plât wedi torri. Mae'r gobaith fod modd i'r llanw droi wedi mynd yn wan. Ac mae'n dyhead ninnau am weld y llanw mawr yn ddigon bregus os nad yn ddarnau mân. Mae'r diffyg gobaith, y diffyg dyhead, y diffyg disgwyl am y llanw yn rhan o'r trai mawr.

O na ddeuai Ysbryd Glân Duw i drwsio'r plât ac i ail blannu ynom y gobaith am weld y llanw mawr yn llifo atom. Po fwyaf y trai...

JOHN PRITCHARD

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU




YN YR ARDD!

WIL C. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

CROESAIR HYDREF



1 ar draws ydi pob ateb sydd heb gliw iddo

Ar draws:

- 4 Llwyth y llong (5)
- 10 Neidio'n ôl (6)
- 11 Gweld eisiau rhywbeth aeth ar goll? (40)
- 12 Dyn neu fachgen (5)
- 14 Y cynnig yn achosi oriau o bendroni! (4)
- 15 Argymell (5)
- 16 Anifeiliaid y dŵr sy'n hoff o bysgod (6)
- 17 Un sy'n tynnu llun (6)
- 19 Afon a thref yn y gogledd (5)
- 20 Tyfiant gwyrdd ar blanhigyn (4)
- 22 Ymgyrracdd at fod yn rhan o'r panel uwchradd (5)
- 23 Adar mawr du (5)
- 25 Tro ar linyr er mwyn clymu (5)
- 29 Clec yn ôl am dwyllo (4)
- 31 Cweryla, fel i i lawr (5)
- 33 Mae'r ael yn rhan ohono, ar yr wyneb (6)
- 35 Adeiladau ble mae anifeiliaid yn cael eu lladd (6)
- 36 Lloches y wenci lwyd? (5)
- 41 Grisiau (5)
- 42 Blaenffwrth y geni ffurwydrol? (4)
- 43 Nid y lle i gadw iâr ddwr! (6)
- 44 Symud ar wyneb y dŵr (5)
- 46 Adeiladau uchel (5)

I lawr

- 1 Gweler 31 ar draws (5)
- 2 Enw llawn 26 i lawr (7)
- 3 Testun yr anthem adnabyddus? (4)
- 5 Diben (5)
- 8 Y pridd o dan yr wyneb (7)
- 9 Prinder lwyd (5)
- 13 Defnyddio'r llygaid (5)
- 17 Creadur mympwyol o'r môr? (5)
- 18 Llwybr mewn eglwys neu gapel (3)

19 Y pryder o weld dyn yn curo dyn (3)

- 24 Yn ifancach ar ddydd arbennig? (3)
- 26 Bachgen sy'n llawn cywilydd (3)
- 27 Gweithredu ar lwyfan? (5)
- 28 Gwahardd (4)
- 30 Byw yn yr un cyfnod â rhywun (7)
- 32 Chwalu'r geto mewn cae i greu parc (7)
- 34 Dyn sy'n cario mewn trol (7)
- 37 Pyramidiau â sylfaen crwn (5)
- 39 Grymuso (5)
- 40 Mis (4)

CROESAIR HYDREF

Derbyniais atebion i groesair mis Medi gan H. O. Hughes, Pwllheli; N. Hughes, Cwm-y-glo; Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Huw Tegid Roberts, Llanrug; Eirian Roberts, Llanrug; Jennie Williams, Clynnog; Olwen Owen, Llanberis; G. Gill, Bangor; Morrisa P. Jones, Clynnog; A. M. Griffith, Dinorwig; Dilys A. Pritchard-Jones, Abercrch; E. E. Jones, Rhoshirwaen; Rhianon Pritchard-Jones, Clynnog; Mureen Lennon, Llanberis; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Pat Owen, Caerfyrddin; Mair Evans, Caernarfon; Olwen Jones, Bethel; Nan Owen, Llanberis a Nansi Davies, Rhuthun. Ymdrech E. E. Jones, Tŷ Mawr, Rhoshirwaen, Pwllheli ddaeth allan o'r het - llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair Hydref, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Hydref 21.

RHODDION

£10: R. Lewis, er cof am Geraint Lewis, 130 Ffordd Penchwintan, Bangor; Megan a Bert, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£5: Cliff a Vera Williams, Awelon, Llanrug; Mr a Mrs Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr; John H. Hughes, Tanclogwyn, Llanberis; Alun Roberts, Ty'n Llwyn, Llanberis; Mrs Hilda Williams, Rhes y Faenol, Llanberis; Evan a Nerys Owen, Bethel; Eleri a Gareth Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen.

£3: Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, Waunfawr; Bett Hughes, 15 Stryd y Wyddfa, Llanberis.

(Parhad o dudalen ôl)


Nghynghrair Gwynedd. Yn aelod o dim criced merched gogledd Cymru, dewiswyd hi yn ddiweddar i dim hyn merched Cymru.

Yn rhyfeddol chwaraewyd y gêm ym Misgin Manor, ger Pontypridd, y clwb mae ei brawd Tom wedi ei gynrychioli tra i lawr gyda thîm Morgannwg y tymor yma. Mae tîm Cymru yn chwarae yng Nghystadleuaeth 'Siroedd' Lloegr a Sir Gaerwrangon oedd y gwrthwynebwyr. Colli o 3 rhediad - gêm glos arall - fu hanes y Cymry ond cafwyd perfformiad da gan Catrin, yn gipio 3 wiced am 12 rhediad oddi ar 6 pelawd. Mae'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Gyda llaw mae Catrin yn chwaraewr hoci da hefyd. Siawns am drydydd cap ys gwn i?

Clwb Eryri

Manteisiwn ar y cyfle i atgoffa'r aelodau bod cyfarfod cyntaf y clwb ar nos Wener, 4 Hydref yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Cefnogwch ein Hysbysebwy



SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Ancuryn Jones a'r staff

CHWARAEON

Y Goron Driphlyg – Tybed?

A welwyd y fath sefyllfa ym Mro'r Eco o'r blaen tybed. Tri o bedwar clwb yr ardal yn arwain eu cyngrheiriaid. Beth yw'r tebygolrwydd o'r sefyllfa yma fodoli ar ddiwedd y tymor tybed?

Y mae'r Locos yn sicr i'w canmol. Yn y blynyddoedd diweddaraf, cafwyd ambell fflach o obaith, yn enwedig mewn gemau cwpan. O sylwi ar eu canlyniadau bryd hynny, roedd yn amlwg fod Llanbêr, yn ôl eu traddodiad, yn codi eu gêm yn erbyn y timau gorau, ac yna yn gollwng pwyntiau mewn gemau a ymddangosai yn haws.

Yr oedd hefyd yn bocnod i'r pwyllgor fod y clwb yn colli nifer o chwaraewyr i dimau eraill oedd yn fodlon talu am wasanaeth y chwaraewyr hynny.

Clod hefyd i'r ffyddloniaid a

arhosodd gyda'r clwb drwy ambell dymor cymharol llwm. Mae'r profiad o ymladd drwy'r cyfnod hwnnw yn amlwg yn dwyn ffrwyth ymysg yr ieuencid erbyn hyn. Yn amlwg mae Colin Saynor wedi adeiladu ysbryd da yn ei garfan ac wedi rhoi y clwb 'yn ôl ar y cledrau'.

Beth mae'r golygydd yn ddeall am bêl-droed, clywaf chwi'n gofyn, wedi fy asesiad o gêm Llanrug a Deiniolen ar ddechrau'r tymor. Llwm fu hi i Ddeiniolen, er bod y gemau wedi bod yn agosach nag y mae ambell sgôr yn awgrymu. Y mae Llanrug yn mynd o nerth i nerth, nid yn unig yn ennill gemau ond yn sgorio'n rheolaidd hefyd. Yn amlwg mae dylanwad a threfniant y tîm rheoli yn dechrau dwyn

APEL

Fy mwriad dros fisoedd y gaeaf yw adlewyrchu y llu o weithgareddau chwaraeon sydd yn yr ardal. Buaswn yn gwerthfawrogi os buasai cynrychiolwyr ein timau pêl, dartiau, bowllo dan do a'r prif gemau fy 'mwydo' â gwybodaeth. Cofiwch fod yr Eco yn groncl o ddigwyddiadau'r ardal ar gyfer y blynyddoedd a ddaw.

Nid Un Cap Ond Dau

Pan ddaw haneswyr chwaraeon i groniclo datblygiad y prif gemau ar droad y mileniwm, dylid rhoi lle amlwg i'r tyfiant rhyfeddol yn y prif gampau i ferched. Mae pêl-droed erbyn hyn â'i chystadleuaeth lleol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'n siwr fod nifer o'n darllenwyr yn dilyn hanes tymor tîm merched Dinas Bangor ar S4C ar hyn o bryd. Yn y garfan mae nifer a chysylltiadau â Bro'r Eco.

Ym myd rygbi, mae clwb merched llwyddiannus yn nhref Caernarfon ac ambell chwaraewr rhyngwladol eisoes wedi deillio o'u mysg. Ar lefel rhyngwladol, mae Cymru fel tîm dynion yn cystadlu yng Nghystadleuaeth y Chwe Cwlad.

Ond nid ar y brig yn unig mae'r trefniadau i ferched. Mae timau cenedlaethol ar sawl lefel oed erbyn hyn, yn arwydd pendant o'r gwelliant sylweddol ym myd hyfforddi ond, yn anffodus, nid mewn nawdd.

Un elfen bositif, wrth gwrs, yw fod llwybr naturiol i ferched i gyrraedd y brig. Dros y blynyddoedd gwelsom ambell ferch yn cynrychioli timau 'bechgyn' yr ardal hyd at rhyw oed arbennig. Erbyn hyn mae rhai clybiau yn datblygu eu timau merched yn yr oedrannau iau.

Un sy'n serennu mewn dwy gamp yw Catrin Evison o Gaeathro. Bu'r flwyddyn ddiwethaf – er prysurdeb arholiadau TGAU – yn hynod o llwyddiannus iddi.

Ym myd y bêl-hirgron mae hi, y tymor yma, yn cynrychioli clwb merched Caernarfon. Eisoes mae hi wedi ei dewis fel aelod o garfan ddisglair Gogledd Cymru. Ar yr asgell mae Catrin yn chwarae, ac mae diddordeb mewn athletau yn gaffaeliad i orffen sawl symudiad a chais haeddiannol. Daeth ei pherfformiadau cyson i sylw dewiswyr tîm dan 16 oed Cymru. Yn wir, dewiswyd hi i gynrychioli Cymru mewn gêm yn Nhreforus, Abertawe. Er i'r tîm golli gêm glos o 3 phwynt, sgoriodd Catrin un o gcisiadau'r tîm.

Yn yr haf, fel ei thad a'i brawd, y llain griced sy'n denu ei sylw. Bu'n cynrychioli timau iau clwb Bangor ers pedair blynedd ac yn wir chwaraeodd ambell gêm i dîm y clwb yng

(Parhad ar dudalen 19)



Tîm y rhieni yn chwarae ar ddiwrnod agoriad swyddogol maes pêl-droed, Bethel.

Athletau Ysgol Brynrefail

Rhwng Ras y Wyddfa a chystadluacth yr Ironman, mae digon o gyfleon i redwyr mynydd yr ardal herio'r elfennau. Dros y blynyddoedd bu tipyn o redwyr yr ysgol yn llwyddiannus yn cipio eu 'festiau' cenedlaethol. Yn ystod ein hegwylj bu tîm yr ysgol yn cystadlu yn frwd i geisio cipio Tlws Cystadluacth Athletau Undeb yr NAS/UWT. Mae'r gystadluacth hon wedi bod yn gaffaeliad mawr i ysgolion Eryri a, gyda adnodd gwyb Treborth ar gael, mae safonau yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. O dan drefniadaeth y gystadluacth mae ymgiprys am y tlws sirol, ac yna cystadluacth 'Ser y Siroedd' dros Gymru gyfan yn Aberhonddu.

Ar y ris gyntaf, scf

Cystadluacth Rhanbarth Arfon cipiwyd y wobr gyntaf gan dimau B1.7 a B1.8, a daeth yr ail safle i dîm B1.10.

Yr ail ris oedd cystadlu yn erbyn enillwyr y gwahanol flwyddoedd ysgol o ranbarthau eraill Eryri. Daeth yn amlwg ar y lefel yma bod cryn ddyfnder yn nhîm B1.8 a chipiwyd y brif wobr eto. Y tro yma, trydydd oedd tîm B1.10.

Ymlaen felly i Aberhonddu i dîm B1.8, a chynnal y traddodiad dros y tair blynedd ddiwethaf bod un tîm o'r ysgol yn cyrraedd y rowndiau terfynol. Yn amlwg, roedd y safon yn uchel iawn ar y lefel yma, gyda nifer o redwyr rhyngwladol yn britho yr amryw gystadluacthau, ac wythfed oedd safle terfynol y tîm.

Roedd si fod gan y tîm esgus digon dilys am y gostyngiad mewn perfformiad. Cafwyd y syniad o gampio allan y noson cyn y gystadluacth, yn ardal Aberhonddu. Yn naturiol, dan oruchwyliaeth Mr Holland, roedd rhaid cael barbeciw, gyda Syr yn eu bwydo. O'r hyn a ddcallwn, y byrgys gafodd y bai am gampau'r diwrnod canlynol.

Elcni, llwyddodd Joseph Simpson, B1.9 i gael ei ddewis i dîm Eryri yng nghystadleuaeth y waywffon, Pencampwriaeth Cymru yn Aberhonddu. Roedd talent cynhcnid Joscff yn amlwg ond eleni, gyda datblygiad corfforol a hyfforddi synhwyrol, mae'n taflu'r waywffon rhyw 50m yn rheolaidd. Yn y bencampwriaeth cenedlaethol, llwyddodd i daflu 42m, ond roedd hyn yn ddigon i ennill y Fedal Arian iddo.